Hefyd, hoffwn ddiolch i EESW am y gwahoddiad caredig i swper Fforwm Modurol Cymru, ac am wobr Myfyriwr y Flwyddyn. Doeddwn i methu credu'r peth, ac nid oeddwn yn ei ddisgwyl o gwbl, ac rwy'n wirioneddol ddiolchgar am yr anrhydedd. Roedd yn noson fythgofiadwy, hyd yn oed os nad ydw i'n gallu cofio fy araith, gan fy mod i mor brysur yn ceisio cuddio pa mor nerfus oeddwn i!

Roedd siarad gydag arbenigwyr yn eu meysydd, cwrdd â myfyrwyr dawnus o bob cwr o Gymru, a chlywed am EESW a'i brosiectau cyffrous, wedi gwneud y digwyddiad yn un arbennig iawn. Fodd bynnag, yr hyn fydd yn amhrisiadwy i fi yn y dyfodol fydd y sgiliau amhrisiadwy a'r profiad o weithio mewn tîm, a'r dylanwad y mae gweithio ar y prosiect wedi'i gael ar y ffordd yr wyf yn mynd i'r afael â phroblemau.

I fi, mae'r ychydig fisoedd diwethaf wedi bod yn brysur, yn llawn ceisiadau prifysgol, cyfweliadau ac astudio ar gyfer fy arholiadau Safon Uwch. Ym mis Mawrth, mynychais rownd derfynol y Big Bang Fair yn Birmingham, lle cawsom gyfle gwych i weithio gyda'n gilydd mewn tîm ar ein prosiect LEVEL unwaith eto, yn cynrychioli Academi Ffotoneg Bangor ac Ysgol Friars. Roedd yn brofiad gwirioneddol unigryw.

Wrth i fi gerdded trwy'r arena anferth yn llawn stondinau am bob dim o fiotechnoleg i ynni adnewyddadwy, geneteg i beirianneg trydanol, a siarad â myfyrwyr o bob cwr o'r DU, meddylwyr creadigol oedd yn frwdrydig am eu prosiectau ac yn awyddus i drafod eu harloesedd, roeddwn i'n teimlo'n rhan o rywbeth arbennig.

Rwy'n bwriadu astudio meddygaeth yn y brifysgol ac rwy'n edrych ymlaen at ddechrau fy nhymor cyntaf yn ddiweddarach eleni. Fodd bynnag, mae cynllun EESW wedi effeithio arnaf mewn ffyrdd nad oeddwn i'n eu disgwyl ac wedi gwneud i fi ystyried fy nghynlluniau gyrfa. Trwy gydol y prosiect hwn, rwyf wedi sylweddoli pa mor bwysig yw peirianneg ym maes meddygaeth. Bydd defnyddio technoleg i roi diagnosis a thriniaeth i afiechydon, a'u rheoli, yn hanfodol i ddyfodol gofal iechyd. Mae datblygu ffyrdd arloesol o helpu meddygon a gwella effeithlonrwydd y system gofal iechyd yn hanfodol, ac rwy'n teimlo'n gyffrous iawn am ddyfodol lle gallaf fod yn rhan o hyn.

Rwy'n ddiolchgar iawn am yr amser a'r ymdrech y mae EESW yn ei roi i ddarparu cyfleoedd fel hyn i fyfyrwyr ledled Cymru, ac rwy'n gobeithio y gall disgyblion barhau i elwa ohonynt yn y dyfodol. Yn fy marn i, mae'r cynllun yn ffordd wych o gyflwyno peirianneg i ddisgyblion ysgol ac yn ffordd gyffrous o ysgogi diddordeb mewn arloesedd a meddwl yn greadigol.

Cyn-fyfyriwr **Owain Roberts**

Mae fy niddordeb mewn pynciau STEM, yn enwedig mathemateg a ffiseg, wedi datblygu trwy gydol fy amser yn yr ysgol.

Mae deall y byd o'm cwmpas, gan edrych ar wahanol ddyfeisiau a gwrthrychau ac astudio sut maen nhw'n gweithio, o ddiddordeb mawr i fi.

Mae astudio ceir, cyfrifiaduron a dyfeisiau electronig erailll wedi rhoi mewnweledigaeth da i fi i'r ffordd y mae pob math o wahanol ddisgyblaethau ym meysydd peirianneg, ffiseg a mathemateg yn cyfuno i greu cyfarpar unigol. Cafodd fy niddordeb mewn peirianneg ei sbarduno yn ystod fy nghyfnod yn yr ysgol gynradd, lle cefais fy nghyflwyno i F1 mewn Ysgolion. Fel disgybl yn Ysgol Gynradd y Talwrn, cymerais ran yn y gystadleuaeth ddwywaith.

Yn y flwyddyn gyntaf, cyrhaeddom y trydydd safle yn y rownd derfynol ranbarthol, ac yn yr ail flwyddyn, aethom ymlaen i gyrraedd y safle cyntaf yn y rownd derfynol ranbarthol ac yna ennill rownd derfynol genedlaethol y DU.

Rwy'n credu bod dysgu egwyddorion peirianneg o oedran ifanc wedi fy helpu trwy gydol yr ysgol uwchradd. Mae wedi fy ngalluogi i ddeall gwaith mwy cymhleth ac yna defnyddio'r wybodaeth newydd hon a'i chymhwyso yn y byd go iawn.

Yn ogystal, rwy'n credu bod F1 mewn Ysgolion yn ychwanegiad gwych i'r CV a ffurflenni cais prifysgolion. Mae'n dangos fy mod wedi ymddiddori mewn peirianneg ers fy mod i'n ifanc ac wedi cael fy ysgogi i lwyddo yn y sector hwn.

Yn ffodus, roedd modd i fi wneud cais am le yn rhai o brifysgolion gorau'r DU, fel Caergrawnt a Durham, er mwyn astudio peirianneg gyffredinol ac, felly, datblygu fy ngwybodaeth am holl agweddau peirianneg, ac rwyf yn gobeithio mynd i Durham yn yr hydref i astudio peirianneg gyffredinol dros gyfnod o bedair blynedd. Hefyd, eleni, rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i fod yn rhan o dîm F1 Ysgol Llangefni, Tîm Drive.

Dechreuodd ein taith yn y rownd derfynol ranbarthol yn Ninbych. Cawsom rownd lwyddiannus yn y gystadleuaeth, gan i ni ddod yn drydydd yn y dosbarth proffesiynol ac, felly, roedden ni'n gymwys i fynd i rownd nesaf y gystadleuaeth – y rownd derfynol genedlaethol. Hefyd, cawsom wobrau am y gwaith ymchwil a datblygu gorau, y car wedi'i beiriannu orau a'r nawdd a marchnata gorau.

Yn dilyn ein llwyddiant yn Ninbych, aethom ni i Silverstone i gystadlu yn y rownd derfynol genedlaethol, lle cystadlom dros gyfnod o ddeuddydd.

Roedden ni'n llwyddiannus un waith eto. Roedden ni'n bencampwyr Cymru, sy'n golygu ein bod ni'n mynd i Singapore i gynrychioli Cymru.

Hefyd, roedden ni yn y 3 uchaf yn y DU am yr arddangosfa pit gorau a'r nawdd a marchnata gorau, ac enillom y wobr am yr hunaniaeth tîm orau yn y DU. Hoffwn ddiolch i EESW am roi cyfle i fi allu defnyddio cysyniadau peirianneg mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn.

Mae'n braf gweld bod Cymru'n ceisio hyrwyddo STEM trwy roi cyfle i ysgolion gystadlu mewn cystadlaethau fel F1 mewn Ysgolion.

Her Fawr F1 mewn Ysgolion 2017-18

Stephen Lane
Rheolwr gweithgareddau EESW

Yn yr un modd â Formula 1, eleni, roedd gan F1 mewn Ysgolion set benodol o reolau, rheoliadau a dosbarthiadau ar gyfer her STEM F1 mewn Ysgolion 2018. Roedd y cystadleuwyr newydd yn dewis o blith dosbarthiadau mynediad, datblygu neu broffesiynol, gan ddibynnu ar oedran a phrofiad.

Roedd timau a oedd yn dychwelyd, os nad oedden nhw eisoes yn cystadlu yn y dosbarth proffesiynol uwch, yn cael eu hannog i gamu ymlaen i ddosbarth uwch.

Mae aelodau'r tîm yn cael rolau penodol lle mae angen iddyn nhw feistroli sgiliau fel dylunio â chymorth cyfrifiadur, erodynameg, mathemateg, ffiseg, llythrennedd a rhifedd, gan baru rolau a sgiliau a ddefnyddir yn y byd gweithgynhyrchu digidol go iawn.

I dimau sy'n newydd i'r gystadleuaeth, mae'r gwaith yn dechrau'n gynnar yn y flwyddyn academaidd gyda chynllunio, hyfforddiant meddalwedd, dylunio a phrofi, tra y bydd timau sy'n dychwelyd wedi bod yn gweithio'n galed ers cystadlu yn rowndiau terfynol rhanbarthol a chenedlaethol y llynedd. Mae gan dimau Cymru'r opsiwn o fynychu un o ddwy rownd derfynol ranbarthol a drefnir gan EESW yng Nghymru.

Yn y rowndiau terfynol, nid yn unig y mae'r timau'n cystadlu i greu'r car cyflymaf, maen nhw hefyd yn cael eu hasesu ar bortffolio o'u gwaith, cyflwyniad llafar mewn tîm, cyfweliad peirianneg a'u harddangosfa pit.

Roedd y timau'n cystadlu am wobrau amrywiol, a chynigir ysgogiad ychwanegol i'r rhai sy'n cyrraedd y brig, sef taith i gystadlu yn rownd derfynol genedlaethol y DU, a gynhelir yn y Silverstone Wing anhygoel uwchlaw'r 'pit straight' ar drac rasio F1 Silverstone.

Cafodd rownd derfynol gogledd Cymru drafferthion wrth i'r Ddihiryn o'r Dwyrain gwrdd â storm Emma. Achosodd eira trwm rywfaint o banig, ac roedd angen aildrefnu a dod o hyd i leoliad arall.

Cynigiodd Ysgol Uwchradd Dinbych ei neuadd chwaraeon i'r holl dimau oedd yn gallu cyrraedd. Cyrhaeddom yr adeilad yn gynnar a gwelsom orymdaith o ddisgyblion Ysgol Uwchradd Dinbych yn cario byrddau a chadeiriau ar draws maes parcio'r ysgol, yn paratoi'r neuadd ar gyfer y digwyddiad.

Mae'n rhaid bod brwdfrydedd disgyblion yr ysgol yn heintus, gyda'r holl dimau'n awyddus i arddangos eu gwaith yn eu hardaloedd pit penodedig.

Ar y trac, roedd cystadleurwydd y timau'n disgleirio, gydag unrhyw gyfeillgarwch rhwng yr ysgolion yn cael ei roi i'r neilltu ar gyfer y rasio brwd.

Newidiodd rownd derfynol de Cymru ei leoliad hefyd. I fodloni'r nifer uwch o dimau, defnyddiom gyfleusterau gwych Stadiwm Dinas Caerdydd. Gyda 30 o dimau'n mynychu'r digwyddiad, ynghyd â gweithgareddau ategol ychwanegol a drefnwyd gan gydweithwyr o dîm EESW, roedd amserlen y diwrnod yn llawn dop. Cafodd dosbarthiadau'r gystadleuaeth eu rhannu'n gyfartal rhwng timau dosbarth newydd oedd yn awyddus i gael blas o'r cyffro, tra bod y timau dosbarth datblygu/proffesiynol yn awchu am flas o Silverstone.

Yn yr un modd â digwyddiad gogledd Cymru, roedd brwdfrydedd y disgyblion yn ysbrydoledig, gyda phob tîm yn meddu ar ddull unigryw o fodloni'r rheolau a'r rheoliadau llym a amlinellwyd ar gyfer y gystadleuaeth.

Aeth y timau buddugol ymlaen i Rownd Derfynol Genedlaethol F1 mewn Ysgolion y DU, lle daeth Tîm Drive o Ysgol Gyfun Llangefni i'r brig fel tîm buddugol Cymru, ac maen nhw'n edrych ymlaen at gystadlu yn Rownd Derfynol y Byd F1 mewn Ysgolion yn Singapore. Rhaid llongyfarch yr holl dimau a gystadlodd – roedd safon y cystadlu ym mhob dosbarth yn uchel iawn ac mae pob disgybl yn haeddu cydnabyddiaeth am eu hymdrechion.

Ar gyfer cystadleuaeth 2018/19, bydd EESW yn parhau i gefnogi timau ledled Cymru. Bydd arbrofion erodynameg yn cael eu cynnig, ynghyd â sesiynau dylunio â chymorth cyfrifiadur Autodesk Fusion 360 newydd i bob lefel a gallu. Bydd cystadlaethau o fewn ysgolion hefyd yn cael eu cynnig, sy'n gyfle gwych i grwpiau mawr o ddisgyblion gymryd rhan cyn y rownd derfynol ranbarthol.

ENILLWYR F1 MEWN YSGOLION

Dosbarth mynediad	Ysgol a thîm
GOGLEDD CYMRU	
Car cyflymaf	Ysgol Uwchradd Prestatyn – Tîm Hamerhead
Gwobr portffolio	Coleg Dewi Sant – 6x7 Racing
Gwobr cyflwyno	Ysgol Gyfun Llangefni – Hard Chargers
Gwobr am y cyflwyniad llafar gorau	Ysgol Gyfun Llangefni – Hard Chargers
Gwobr sêr y dyfodol	Coleg Dewi Sant – 6x7 Racing
Pencampwyr rhanbarthol y dosbarth mynediad	Ysgol Gyfun Llangefni – Hard Chargers
Dosbarthiadau datblygu a phroffesiynol	
Dosbarth datblygu – car cyflymaf	Ysgol Rhuthun – KA-Chow
Dosbarth proffesiynol – car cyflymaf	Ysgol Uwchradd Dinbych – Quantum
Gwobr nawdd a marchnata tîm	Ysgol Gyfun Llangefni – Drive
Gwobr hunaniaeth tîm	Ysgol Uwchradd Dinbych – Quantum
Gwobr meddwl arloesol	Ysgol Uwchradd Dinbych – Quantum
Gwobr ymchwil a datblygu	Ysgol Gyfun Llangefni – Drive
Gwobr car a beiriannwyd orau, dosbarth datblygu	Ysgol Rhuthun – KA-Chow
Gwobr argymhelliad y beirniaid	Coleg Dewi Sant – SDC Racing
Dosbarth datblygu – 3ydd safle	Coleg Dewi Sant – SDC Racing
Dosbarth datblygu – 2il safle	Ysgol Rhuthun – Ballistix
Dosbarth datblygu – Enillwyr 2018	Ysgol Rhuthun – KA-Chow
Gwobr car a beiriannwyd orau, dosbarth proffesiynol	Ysgol Gyfun Llangefni – Drive
Dosbarth proffesiynol – 3ydd safle	Ysgol Gyfun Llangefni – Drive
Dosbarth proffesiynol – 2il safle	Ysgol Uwchradd Cei Connah – Pursuit Racing
Pencampwyr rhanbarthol, dosbarth proffesiynol 2018	Ysgol Uwchradd Dinbych - Quantum

Dosbarth mynediad	Ysgol a thîm
DE CYMRU	
Car cyflymaf	Ysgol Brynteg – Firefish
Gwobr portffolio	Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin – Vulcan
Gwobr cyflwyno	Ysgol Brynteg – Firefish
Gwobr cyflwyniad llafar gorau	Ysgol Gyfun Rhydywaun – Mellten Rhydywaun
Gwobr sêr y dyfodol	Ysgol Y Pant – Speed
Pencampwyr rhanbarthol, dosbarth mynediad	Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin – Vulcan
Dosbarthiadau datblygu a phroffesiynol	
Dosbarth datblygu – car cyflymaf	Ysgol Brynteg – Swordfish
Dosbarth proffesiynol – car cyflymaf	Afon Taf – Kalopsia
Gwobr nawdd a marchnata tîm	Coleg St John – Exception
Gwobr hunaniaeth tîm	Ysgol Pencoed – Nemesis Inferno
Gwobr meddwl arloesol	Ysgol Brynteg – F1 Fireflys
Gwobr ymchwil a datblygu	Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern – Apex-Bro Edern
Gwobr car a beiriannwyd orau, dosbarth datblygu	Ysgol Brynteg – Swordfish
Gwobr argymhelliad y beirniaid	Coleg St John – Stormbreakers
Dosbarth datblygu – 3ydd safle	Ysgol Pencoed – Nemesis Inferno
Dosbarth datblygu – 2il safle	Ysgol Gyfun Ystalyfera – Nemesis
Dosbarth datblygu – Enillwyr 2018	Ysgol Brynteg – F1 Fireflys
Gwobr car a beiriannwyd orau, dosbarth proffesiynol	Coleg St John – Exception
Dosbarth proffesiynol – 3ydd safle	Ysgol Uwchradd Cyfarthfa – In a Jiffy
Dosbarth proffesiynol – 2il safle	Afon Taf – Kalopsia
Pencampwyr rhanbarthol dosbarth proffesiynol 2018	Coleg St John – Exception

Myfyriwr Ysgol Uwchradd Dinbych ac Academi Beirianneg Williams Randstad

Graham Nutt
Rheolwr Gogledd Cymru EESW

Mae myfyriwr yn Ysgol Uwchradd Dinbych a enillodd un o naw o leoedd yn fyd-eang i ymuno ag academi beirianneg uchel ei pharch wedi sicrhau ail flwyddyn ar y rhaglen. Enillodd Amy Martin, sy'n fyfyriwr ym Mlwyddyn 12, ei lle yn Academi Beirianneg Williams Randstad am y tro cyntaf ar ôl ei llwyddiant fel rheolwr Tîm Tachyon (ddwy flynedd yn olynol) – sef cystadleuwyr merched yn unig yr ysgol yn F1 mewn Ysgolion.

Y llynedd, enillodd y tîm dair gwobr yn nathliad gwobrau Rownd Derfynol y Byd F1 mewn Ysgolion yn Texas: y wobr nawdd a marchnata tîm, y wobr menywod mewn chwaraeon moduro, a'r wobr am y cyflwyniad llafar gorau. Cododd swm anhygoel o £23,000 i dalu am ffi'r gystadleuaeth a chostau teithio a llety, yn ogystal ag ariannu gwaith ymchwil a gwneud gwelliannau i'r car a'r arddangosfa pit. Yn 2015, enillodd y tîm y wobr nawdd a marchnata yn rownd derfynol y byd yn Singapore. Cafodd Amy ei dewis ar gyfer yr academi pan oedd yn Texas.

Mae'r rhaglen yn gofyn i fyfyrwyr gwblhau cyfres o fodiwlau e-ddysgu ar thema chwaraeon moduro, gan weithio gyda mentor Williams i'w harwain drwy'r broses. Yn ei blwyddyn gyntaf, mae Amy wedi dysgu am sut mae erodynameg, cyflymu, brecio a gyrru rownd corneli yn effeithio ar berfformiad ceir F1. Mae ei mentor, Michelle Davis, yn dylunio pibelli rheiddiaduron ac mae'n gyfrifol am oeri'r injan y tu mewn i gar F1 Williams. Bob blwyddyn, ar ôl cyfres o draethodau a chyfweliadau, mae Williams yn torri'r grŵp i lawr. Roedd Amy wrth ei bodd i glywed ei bod hi wedi llwyddo i gyrraedd ail flwyddyn y rhaglen chwe blynedd. Ei mentor yn yr ail flwyddyn yw Laurence

Amy Martin gyda thîm Tachyon, ail o'r dde

Griffiths, sy'n uwch-beiriannydd methodoleg CFD. Bydd yn ei thywys trwy'r unedau diogelwch, màs, trawsyriant a brecio trwy gydol y flwyddyn.

Yn ogystal â rheoli gofynion y rhaglen beirianneg, mae Amy yn astudio ar gyfer ei chymwysterau AS mewn ffiseg, mathemateg, mathemateg bellach, llywodraeth a gwleidyddiaeth, a llenyddiaeth Saesneg. Dywedodd: "Mae'r holl brofiad gyda Randstad a Williams wedi bod yn gwbl anhygoel, ac mae'n wahanol iawn i ddysgu arferol. Maen nhw'n ein profi a'n herio, ac rwy'n credu ei fod wedi fy helpu i ddatblygu fy ngwybodaeth am bynciau penodol.

"Gan mai fi yw un o'r ifancaf yn yr academi, nid ydym ni wedi trafod llawer o'r pynciau yn y dosbarth ffiseg neu dechnoleg. Mae fy athrawon technoleg a ffiseg, Mr Gareth Jones, Mr Alex Price a Mr John Breese, yn fy helpu gyda llwyth gwaith yr academi, ac maen nhw wedi bod yn gefnogol iawn o'm holl ymdrechion y tu allan i'r ysgol. Mae'r cymorth rwyf yn ei dderbyn ganddyn nhw, a gan fy nheulu, yn fy ysgogi i lwyddo yn yr Academi.

"Yn y dyfodol, byddwn i wrth fy modd yn mynd i brifysgol dda fel Rhydychen neu Goleg Imperial, Llundain i astudio peirianneg fecanyddol neu awyrennol. Os byddaf yn llwyddiannus trwy gydol y rhaglen chwe blynedd gyda Williams, efallai y caf gynnig swydd gyda nhw – mae hyn yn rhywbeth yr hoffwn ei wneud yn bendant. Fy uchelgais yw bod yn beiriannydd ym maes chwaraeon modurol, ac rwy'n werthfawrogol iawn o'r holl brofiad a'r cymorth anhygoel yr wyf wedi'i dderbyn i fy helpu i nesáu at gyflawni fy uchelgais."

Yn ddiweddar, aeth Amy gyda'i thad a'i chwaer i wylio Grand Prix Abu Dhabi, sef rownd olaf Formula 1. Tra roedd hi yno, aeth i garej Williams i gwrdd â Felipe Massa, a chafodd ei gwahodd i'r pit ar gyfer ras olaf y tymor, oedd yn "anrhydedd anferth" yn ei geiriau hi.

Mae pob aelod o Dîm Tachyon wedi aros ymlaen yn Ysgol Uwchradd Dinbych i ymuno â'r chweched dosbarth. Mae Holly Roberts, peiriannydd dylunio'r tîm, a Jessica Briody Hughes, y peiriannydd gweithgynhyrchu, yn ystyried gyrfaoedd mewn peirianneg neu fathemateg, ac mae Katie Rowlands, y rheolwr adnoddau, eisiau dilyn gyrfa yn y gyfraith.

Cynhaliodd yr ysgol wasanaeth arbennig ym mis Ionawr i anrhydeddu cyflawniadau rhagorol y myfyrwyr a'u cyfraniad i'r ysgol. Mae llwyddiant y tîm dros y ddwy flynedd ddiwethaf hefyd wedi cael ei gydnabod gan Ann Jones AC. Cyfarfu â'r merched ar ymweliad â'r ysgol ac yna siaradodd am eu cyflawniadau yn y Senedd, Caerdydd.

TALENT PEIRIANNEG I'R DYFODOL YNG NGHYMRU 7

Pencampwyr F1 mewn Ysgolion y DU 2018 yn dathlu eu buddugoliaeth yn rownd derfynol y byd yn Singapore

Alison Hill
Swyddog y Wasg F1 mewn Ysgolion

Team Unity, from Emmanuel College, Gateshead, celebrate winning F1 in Schools UK National Finals 2018

Dathlodd Unity, tîm o fyfyrwyr 16 a 17 oed o Goleg Emmanuel, Gateshead, eu buddugoliaeth yn Rownd Derfynol Genedlaethol F1 mewn Ysgolion y DU 2018, gan brofi bod dyfalbarhad a phenderfyniad yn cael eu gwobrwyo – dyma oedd eu pedwerydd cynnig cyn ennill teitl pencampwyr y DU. Mae'r llwyddiant yn sicrhau lle'r tîm yn Rownd Derfynol y Byd F1 mewn Ysgolion 2018 yn Singapore ym mis Medi, ochr yn ochr â Grand Prix Formula 1 Singapore.

Y gwobrau i'r pencampwyr oedd tocynnau i Grand Prix Formula 1 Prydain, trwy garedigrwydd trac rasio Silverstone, mynediad arbennig i'r 'Paddock' yn y digwyddiad gan Formula 1, taith o ffatri tîm Formula 1, dwy ysgoloriaeth £5,000 ar gyfer gradd peirianneg fecanyddol yng Ngholeg Prifysgol Llundain (UCL) a chyfarpar Denford gwerth £10,000 ar gyfer eu hysgol.

Hefyd, enillodd Unity y wobr am y car a beiriannwyd orau ar ei ffordd i ennill coron y DU, gyda'r beirniaid yn canmol y tîm am ddyluniad, gweithgynhyrchu a pheirianneg y car F1 mewn Ysgolion.

Ymysg dagrau o lawenydd ar frig y podiwm, dywedodd Lucy Brooks, arweinydd tîm Unity: "Does gen i ddim geiriau. Mae'n anhygoel; rydyn ni i gyd wedi gweithio mor galed, felly dw i'n meddwl ein bod ni'n haeddu hyn. Mae hi wedi bod yn daith hir, ond yn werth chweil. Rydyn ni wedi bod gyda'n gilydd ers amser hir bellach, felly mae ein gwaith tîm yn sicr yn rhan bwysig o'n llwyddiant. Mae llawer o waith i'w wneud i baratoi ar gyfer Singapore, i sicrhau bod ein car cystal ag y gall fod. Rydyn ni'n gwybod y gall cystadlu yn rowndiau terfynol y byd agor drysau i yrfaoedd mewn peirianneg, felly mae'n gyfle gwych i ni. Rydyn ni'n edrych ymlaen at fod yno."

Yn ymuno ag Unity ar y podiwm ar ôl deuddydd o gystadlu brwd oedd Origin, tîm o Ysgol Robert May, Odiham, a fydd yn cynrychioli Lloegr yn rownd derfynol y byd, a Hawk Racing o Ysgol Ramadeg Colyton, Dyfnaint, sy'n cael cyfle i gydweithio gyda thîm buddugol F1 mewn Ysgolion tramor yn rownd derfynol y byd. Hefyd, bydd tîm Drive o Ysgol Gyfun Llangefni yn cynrychioli Cymru yn Singapore, a bydd Velocity Racing o Ysgol Uwchradd Gymunedol Inveralmond, Livingston, yn cystadlu dros yr Alban.

Hefyd, enillodd Tîm AcceleRace wedi'i bweru gan Inoapps, sef tîm F1 mewn Ysgolion yn y Dosbarth Datblygu o, Academi Linlithgow, yr Alban, eu lle yn rownd derfynol y byd, ar ôl ennill teitl pencampwyr Dosbarth Datblygu F1 mewn Ysgolion yn gynt yn yr wythnos.

Dywedodd Andrew Denford, sefydlydd a chadeirydd F1 mewn Ysgolion, am Rownd Derfynol y DU eleni: "Mae'r safon eleni wedi bod yn syfrdanol. Mae'r myfyrwyr wedi gweithio'n rhyfeddol o galed, gan ddangos lefel aruthrol o sgiliau peirianneg, dylunio a busnes, a bod yn llysgenhadon gwych dros eu hysgolion a dysgu STEM. Rwyf wrth fy modd i weld Unity'n fuddugol o'r diwedd, maen nhw wedi dangos dyfalbarhad, heb ildio eu breuddwyd o gynrychioli'r DU yn rownd derfynol y byd.

"Bron nad ydych yn sylwi ar y sgiliau a ddatblygwyd gan y myfyrwyr, gan fod eu hangerdd a'u hysgogiad i ddylunio'r car gorau posibl yn eu meddiannu. Ar ddiwedd y digwyddiad yn unig, pan fyddan nhw'n myfyrio ar eu gwaith, y byddan nhw'n sylweddoli pa mor bell maen nhw wedi dod a faint mae eu sgiliau wedi datblygu – p'un a yw'n hyder, arbenigedd CAD/CAM, arweinyddiaeth, rheoli amser, neu beirianneg. Rwy'n falch iawn o bob myfyriwr, tîm ac athro sydd ynghlwm â'r rhaglen; maen nhw'n dangos sut gall rhoi STEM ar waith fod yn amhrisiadwy mewn addysg."

Roedd Rownd Derfynol Genedlaethol F1 mewn Ysgolion y DU, a gynhaliwyd yng nghartref chwaraeon modurol Prydain, trac rasio Silverstone, yn dod â'r 42 tîm gorau o bob cwr o'r DU ynghyd, sef enillwyr y 10 rownd derfynol ranbarthol a gynhaliwyd yn gynharach eleni. Aeth y timau ati i fynd i'r afael â'r her o ddylunio, adeiladu, profi a rasio car F1 bychan, a threulio'r ddau ddiwrnod olaf yn cael eu cynigion wedi'u beirniadu mewn nifer o gategorïau, gan gynnwys archwilio, peirianneg, cyflwyniad llafar, arddangosfa pit a phortffolio menter, yn ogystal â phrofi cyflymder y car ar drac swyddogol F1 mewn Ysgolion – sef strip ceir 20 metr o hyd, y mae'r ceir F1 mewn Ysgolion yn ei wneud mewn ychydig dros eiliad.

Cynhaliwyd Rownd Derfynol Genedlaethol F1 mewn Ysgolion gyda chymorth llu o noddwyr a chefnogwyr. Ymhlith y rhain y mae IET, Autodesk, Denford Ltd, Airbus, City, University of London ac UCL Engineering.

Beth yw F1 mewn Ysgolion?

Mae F1 mewn Ysgolion yn herio myfyrwyr i greu eu tîm Formula 1 eu hunain, sy'n cael ei gomisiynu i ddylunio, adeiladu a rasio car Formula 1 bach cyflymaf y dyfodol; sef model 21cm o hyd wrth raddfa wedi'i greu o floc modelu ac wedi'i bweru gan silindr aer cywasgedig.

Mae pob tîm o rhwng tri a chwech o fyfyrwyr yn creu arddangosfa 'pit' ac yn arddangos ei waith o ddatblygu ei gar rasio. Yn y rownd derfynol genedlaethol, mae pob tîm yn dod ag arddangosfa pit, ei geir a'i bortffolio, yn ogystal â pharatoi cyflwyniad llafar i'r beirniaid.

Mae'r ceir yn rasio ar drac 20 metr, gyda'r ceir yn teithio'r pellter hwnnw mewn tua un eiliad. Mae rowndiau terfynol y byd yn dod â'r myfyrwyr gorau ynghyd i gystadlu am dlws uchel ei barch pencampwyr y byd, ac ysgoloriaethau a bwrsariaethau prifysgol gwerthfawr.

CYLCHGRAWN CYNLLUN ADDYSG PEIRIANNEG YNG NGHYMRU

Her Ysgolion Cynradd Jaguar 2018

Chris Harris
Cydlynydd Her Ysgolion Cynradd Jaguar EESW

Mae Her Ysgolion Cynradd Jaguar yn gystadleuaeth STEM sydd ar agor i ddisgyblion rhwng 6 ac 11 oed. Mae'n cynnwys dylunio a gweithgynhyrchu'r car cyflymaf posibl o fewn set o reolau, gan ddilyn y prosesau dylunio a gweithgynhyrchu sy'n cael eu defnyddio gan gwmnïau peirianneg go iawn fel Jaguar Land Rover.

Mae disgyblion yn ffurfio tîm o dri i chwe disgybl i ddylunio car rasio o gerdyn 160g/m² gydag olwynion, corff a hyd yn oed gyrrwr bach. Maen nhw'n dylunio ac yn gweithgynhyrchu cragen corff i'w osod mewn ffrâm sylfaenol gan ddefnyddio meddalwedd cyn argraffu a thorri eu dyluniadau ar gerdyn gan ddefnyddio torrwr plotiwr ac yna paratoi eu car i'w rasio. Caiff y ceir eu pweru gan getrisen 4gm CO2 wedi'i hailgylchu ac maen nhw'n cael eu rasio ar system amseru a thrac 20 metr sylfaenol F1 mewn Ysgolion.

Rownd derfynol ranbarthol gogledd Cymru

Daeth her Ysgolion Cynradd Jaguar F1 mewn Ysgolion i ben yng ngogledd Cymru yn Venue Cymru, Llandudno. Cymerodd saith o ysgolion ran, ac yn ôl yr arfer yng ngogledd Cymru, bu cystadlu brwd, gyda phedwar o leoedd ar gael yn rownd derfynol y DU – y mwyaf erioed. Rhaid i'r timau greu portffolio a threfnu arddangosfa pit i ddangos yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu. Rhannwyd y gwobrau rhwng Lightning Strikes o Ysgol Bodafon, Eryrod Eryri o Ysgol Bro Gwydir a Plasma o Ysgol Esgob Morgan.

Yn ogystal â'r categori pit a phortffolio, mae'n rhaid i'r timau roi cyflwyniad llafar i baneli o feirniaid ac mae eu ceir yn cael eu marcio ar sail ansawdd peirianneg. Enillwyd y wobr cyflwyniad llafar eleni gan Jungle Racers o Nercwys, ac Eryrod Eryri o Ysgol Bro Gwydir enillodd y wobr am y car a beiriannwyd orau.

Roedd y rasio'n gystadleuol iawn unwaith eto, ac ni lwyddodd unrhyw dîm i guro amser ymateb anhygoel 0.009 a osodwyd gan Ysgol Bro Gwydir y llynedd. Fodd bynnag, Spycon o Ysgol Esgob Morgan a gyflawnodd amser ymateb gorau'r diwrnod, sef 0.162 o eiliad. Dyluniwyd a chrëwyd y car cyflymaf gan y tîm o Lanidloes, Jaguar X. Rhoddwyd gwobr ddewisol y beirniaid i'r Cosmic Raycers o Ysgol Bodafon.

Y pencampwyr cyffredinol yng ngogledd Cymru oedd Lightning Strikes o Ysgol Bodafon, gyda Light Speed o Nercwys, Eryrod Eryri o Ysgol Bro Gwydir a'r Jungle Racers o Nercwys yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn rownd derfynol y DU.


Mae EESW wedi ymrwymo i annog mwy o bobl ifanc i ystyried gyrfaoedd mewn disgyblaethau STEM, yn enwedig peirianneg

Rownd derfynol ranbarthol de Cymru

Cynhaliwyd rownd derfynol rhanbarth de Cymru yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe, a daeth 22 o ysgolion i gystadlu am bum lle yn rownd derfynol y DU. Roedd y safon mor uchel eleni, penderfynodd y beirniaid roi saith o wobrau dewisol. Dyfarnwyd y rhain i: Electric Roadsters o Ysgol Gynradd Clytha; Electric Wheels o Albert Road, Penarth; Supersonic o Ysgol Gynradd Coity; Dragon Fury o Garnteg; Lightning Bolts o Ysgol Gynradd Parc y Castell a thîm Spitfire o Ysgol Llanbedr.

Rhoddwyd y wobr pit a phortffolio i'r tîm o Gaedraw ym Merthyr o'r enw End Game. Cafodd y wobr cyflwyniad llafar ei roi ar y cyd i End Game o Gaedraw a Dragon Racing o Ysgol Gwaunfarren. Gyrrwr Ysgol Gynradd Deri View a'r tîm Lightning Bolts a gyflawnodd yr amser ymateb cyflymaf, sef 0.014 eiliad. Fodd bynnag, cafodd y car cyflymaf ei ddylunio a'i greu gan End Game o Ysgol Caedraw – cymerodd y car 0.958 eiliad i deithio ar hyd y trac 20 metr, sy'n golygu ei fod yn teithio'n gynt na 46 milltir yr awr!

Enillodd End Game o Ysgol Caedraw dlws yr enillwyr cyffredinol, yn gwbl haeddiannol. Yn ogystal, cafodd yr ysgolion/timau canlynol eu gwahodd i gymryd rhan yn rownd derfynol genedlaethol y DU: Ysgol Gynradd Deri View – Lightning Bolts; Ysgol Gynradd Llangynidr – Tîm Bolt; Ysgol Gynradd Gwaunfarren – Dragon Racing ac Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig – Turbo Titans.

Pencampwriaeth genedlaethol y DU

Nid yw'n syndod, ar ôl gweld y safon a ddangoswyd ganddynt drwy gydol y rowndiau terfynol rhanbarthol a chenedlaethol, y cafodd End Game o Ysgol Caedraw eu coroni'n bencampwyr y DU ar 20 Mehefin 2018 yn yr Amgueddfa Fodurol Genedlaethol yn Gaydon. Dyma anrhydedd fawr i'r ysgol ac i Gymru, ac mae'n benllanw sawl blwyddyn o waith caled gan yr ysgol a'i hathrawon, Miss J Stokes a Mr S Beale. Rhaid cydnabod Ysgol Gynradd Gwaunfarren hefyd, a enillodd y wobr nawdd, ac mae hyn yn nodedig gan mai dyma ei blwyddyn gyntaf yn cymryd rhan yn Her Ysgol Gynradd Jaguar.

Y pedwerydd chwyldro diwydiannol – Diwydiant 4.0

Bob Cater
Prif Weithredwr Cynllun Addysg Beirianneg Cymru

Yn y rhifyn diwethaf, esboniais ein bod ni ar drothwy chwyldro diwydiannol a fydd yn newid y ffordd rydym yn byw, yn gweithio ac yn ymwneud â'n gilydd yn sylfaenol. O ran ei raddfa, ei gwmpas a'i gymhlethdod, bydd y trawsnewidiad yn annhebyg i unrhyw beth y mae'r ddynoliaeth wedi ei brofi cyn hyn. Mae'n cael ei alw'n bedwerydd chwyldro diwydiannol, neu Ddiwydiant 4.0.

Yn ystod y 150 mlynedd ddiwethaf, mae'r DU wedi byw trwy dri chwyldro diwydiannol. Roedd y chwyldro diwydiannol cyntaf, a ddechreuodd oddeutu 1760, wedi trawsnewid ffordd o fyw nad oedd wedi newid rhyw lawer ers yr Oesoedd Canol. Parhaodd yr ail chwyldro diwydiannol o ganol y 19eg ganrif hyd at ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, ac roedd yn cynnwys defnyddio dur ar raddfa eang yn y DU, a chyflwyno masgynhyrchu. Digwyddodd y trydydd chwyldro, neu'r chwyldro digidol, yn ail hanner yr ugeinfed ganrif, a gwelodd ddiwydiant yn newid o ddefnyddio technoleg electronig fecanyddol ac analog, i ddigidol.

Sbardunodd y chwyldro digidol ddechrau'r oes wybodaeth yr ydym yn byw ynddi heddiw – rhoddir enw digidol addas i oes y rhyngrwyd a Rhyngrwyd Pethau, sef Diwydiant 4.0.

Mae Diwydiant 4.0, neu'r pedwerydd chwyldro diwydiannol, yn creu, i bob pwrpas, yr hyn a elwir yn 'ffatri ddeallus', sy'n defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf, gan gynnwys systemau seibr-ffisegol, Rhyngrwyd Pethau a chyfrifiadura cwmwl, i fonitro'r prosesau mewn ffatri a gwneud penderfyniadau gwybodus o bell.

Diwydiant 4.0

Bathwyd y term pedwerydd chwyldro diwydiannol o ganlyniad i'r effaith chwyldroadol y bydd technolegau newydd yn ei chael ar bob rhan o weithgynhyrchu. Bydd y rhyngweithio cynyddol rhwng dyfeisiau, neu Ryngrwyd Pethau, gweithgynhyrchu ychwanegol (argraffu 3D), data mawr a chynnydd roboteg yn cynyddu cynhyrchiant, arloesedd ac addasu torfol yn sylweddol. Yr ysgogwyr allweddol y tu ôl i'r datblygiadau hyn yw'r dechnoleg sydd ar gael yn fwy cyffredin, ar y cyd â'r dosbarth canol sy'n tyfu'n fyd-eang, sy'n arwain at alw cynyddol am gynnyrch unigoledig o ansawdd uchel.

Mae'n debygol y bydd y defnydd cynyddol o roboteg yn arwain at leihad sylweddol mewn swyddi gweithgynhyrchu, gan y bydd prosesau wedi'u hawtomeiddio'n disodli rôl pobl ar lawr y ffatri. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd colledion yn cael eu gwrthbwyso wrth i fewnbwn dynol ar ffurf creadigrwydd gael ei werthfawrogi'n fwy.

Fodd bynnag, mae prinder parhaus o bobl ifanc sy'n dewis pynciau STEM yn ein gwlad, ac mae angen mwy o beirianwyr arnom yn enwedig. Ond bydd angen ystod ehangach o sgiliau ar y mwyafrif o beirianwyr sy'n meddwl am syniad arloesol newydd na'r rhai a enillir ym maes mathemateg, peirianneg a thechnoleg. Byddan nhw hefyd yn defnyddio meddwl dylunio, creadigrwydd, cyfathrebu a sgiliau artistig er mwyn gwireddu'r arloesiadau hyn.


Mae EESW wedi ymrwymo i annog mwy o bobl ifanc i ystyried gyrfaoedd mewn disgyblaethau STEM, yn enwedig peirianneg

Nid yw'r syniad hen-ffasiwn fod peirianwyr a gwyddonwyr yn weithwyr ynysig yn berthnasol bellach. Mae yna gorff cynyddol o gefnogwyr sy'n dymuno ychwanegu A am 'art' at STEM, er mwyn creu STEAM.

Beth mae Diwydiant 4.0 yn ei olygu i Gymru

Daeth Miller Research and Consulting i'r casgliad mewn adroddiad a baratowyd ar gyfer Diwydiant Cymru, bod economi Cymru wedi dibynnu ar ddiwydiannau trwm yn draddodiadol, o fasgynhyrchu dur a llechi ochr yn ochr â diwydiant morol cryf. Er gwaethaf presenoldeb pocedi o weithgynhyrchu peirianneg awyrofod a lled-ddargludyddion yng Nghymru, nid yw hyn yn cynrychioli'r sector gweithgynhyrchu ehangach yng Nghymru o bell ffordd, sy'n dechrau cael ei adael ar ôl o ran datblygiadau byd-eang mewn prosesau gweithgynhyrchu.

Mae'r llenyddiaeth bresennol yn dangos bod angen i Gymru ehangu ei marchnadoedd i fodloni galw byd-eang a buddsoddi'n sylweddol mewn ymdrechion i gynyddu galluoedd gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg gweithlu Cymru er mwyn cynnal neu gynyddu nifer y swyddi ym maes gweithgynhyrchu Cymru.

Mae gan hyn oblygiadau mawr i'r hyn rydym yn ei wneud gyda'r bobl ifanc yn ein hysgolion a'n colegau. Mae EESW wedi ymrwymo i annog mwy o bobl ifanc i ystyried gyrfaoedd mewn disgyblaethau STEM, yn enwedig peirianneg. Mae Llywodraeth Cymru, trwy'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, yn gweithredu trwy gefnogi EESW a phrosiectau STEM eraill i fynd i'r afael â'r prinder pobl ifanc sy'n ystyried gyrfaoedd mewn disgyblaethau STEM ar hyn o bryd.

Gobeithio y bydd y cwricwlwm newydd, a ysbrydolwyd gan Donaldson, gyda'i chwe maes o ddysgu a phrofiad, yn darparu gwell sail ar gyfer datblygu agweddau a sgiliau i annog mwy o ddiddordeb ac astudio pynciau STEM ar lefelau uwch.


Ysgol haf Headstart Cymru

Prifysgol Abertawe'n gweithio law yn llaw gydag EESW

Tamsyn Protheroe
Swyddog cyfathrebu a marchnata digidol
Coleg Peirianneg
Prifysgol Abertawe

Dechreuodd ein perthynas gydag EESW dros 20 mlynedd yn ôl, ac ers hynny, rydym wedi bod yn falch o gefnogi gwaith y sefydliad.

Mae llawer o'n myfyrwyr presennol, a hyd yn oed ein staff, wedi elwa'n uniongyrchol ar gynlluniau EESW, gan gynnwys yr athro cyswllt peirianneg awyrofod, Dr Ben Evans, a gymerodd ran yn ysgol haf Headstart Cymru pan oedd yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt, Abertawe.

Bob blwyddyn, rydym yn cynnal ysgol haf Headstart Cymru, wedi'i noddi gan EESW, ym Mhrifysgol Abertawe. Mae'n rhoi cyfle i 30 o fyfyrwyr Blwyddyn 12 o ysgolion yng Nghymru gymryd rhan ac ymgysylltu â phynciau a phrosiectau peirianneg sy'n canolbwyntio ar beirianneg awyrofod, cemegol, sifil, electronig a thrydanol, deunyddiau, mecanyddol a meddygol. Mae'r sesiynau hyn yn rhoi blas ar feysydd penodol o fewn y rhaglenni unigol mewn ffordd ymarferol, ryngweithiol a diddorol, gan amlygu beth mae gradd yn y meysydd hyn yn ei olygu, a thaflu goleuni ar yrfaoedd yn y dyfodol a gwaith ymchwil yn y meysydd hyn.

Mae gweithgareddau cymdeithasol gyda'r nos hefyd yn rhoi cyfle i fyfyrwyr wneud ffrindiau a mwynhau, ac mae elfen breswyl yr ysgol haf yn rhoi syniad iddynt o brofiad prifysgol arferol.

Bob blwyddyn, mae Prifysgol Abertawe yn noddi timau prosiect chweched dosbarth EESW sy'n cymryd rhan mewn prosiect dros chwe mis mewn cydweithrediad â phartneriaid yn y byd academaidd a diwydiannol.

Rydym yn darparu arweiniad arbenigol gan ein staff academaidd, fel Dr Ian Mabbett sydd wedi bod yn arwain yr ymdrech hon yn y brifysgol, a chan fyfyrwyr peirianneg israddedig a doethuriaeth presennol.

Hefyd, gall y timau ysgol ddefnyddio ein cyfleusterau a'n cyfarpar ymchwil byd-arweiniol, fel ein rhaglenni a'n meddalwedd dylunio a'n gweithdai technegol, i helpu eu prosiectau.

Caiff prosiectau chweched dosbarth EESW eu harddangos bob blwyddyn yn y ffeiriau Big Bang, ac roeddem yn falch o gynnal Ffair Big Bang De Cymru 2016 yng Nghampws y Bae Prifysgol Abertawe. Daeth dros 70 o dimau ysgol o bob cwr o dde Cymru i sioeau hwyliog, arddangosfeydd ymarferol a gweithdai rhyngweithiol.

Edrychwn ymlaen at barhau â'n perthynas a darparu cymaint o gymorth â phosibl i EESW a'r gwaith gwych mae'n ei wneud i ddarparu ac ehangu'r cyfleoedd i bobl ifanc yng Nghymru ymgysylltu ag astudiaethau a gyrfaoedd peirianneg.


Cynhaliwyd yr ysgol haf yng Nghampws y Bae, Prifysgol Abertawe

Edrych at y dyfodol gyda swyddfa ynni positif

Garbo Lim
Swyddog Marchnata
Coleg Peirianneg
Prifysgol Abertawe

Yma yn y Coleg Peirianneg ym Mhrifysgol Abertawe, rydym yn edrych at y dyfodol o hyd, p'un a yw hynny trwy ysbrydoli darpar-wyddonwyr, creu'r set newydd o beirianwyr neu drwy ein gwaith ymchwil blaengar.

Eleni, yn yr Ardal Beirianneg yng Nghampws y Bae, rydym ni wedi agor swyddfa ynni positif gyntaf y DU, sy'n cynhyrchu mwy o ynni solar nag y mae'n ei defnyddio. Fe'i hagorwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Alun Cairns, a dyluniwyd y swyddfa gan SPECIFIC, sef Canolfan Arloesi a Gwybodaeth y DU a arweinir gan ysgolheigion yn y Coleg Peirianneg.

Mae'r Swyddfa Weithredol yn cyfuno ystod o dechnolegau arloesol a fydd yn ei galluogi i greu, storio a rhyddhau ynni solar mewn un system integredig, gan gynnwys:

- To crwm gyda chelloedd solar integredig – gan ddangos natur hyblyg y panel ffotofoltäig laminedig
- System thermol ffotofoltäig ar y wal sy'n wynebu'r de - sy'n gallu creu gwres a thrydan o'r haul mewn un system
- Batris lithiwm-ion i storio'r trydan a gynhyrchir a thanc dŵr 2,000 litr i storio gwres solar

Mae'r Ystafell Ddosbarth Weithredol ger y Swyddfa Weithredol, sef ystafell ddosbarth ynni positif gyntaf y DU. Fe'i hadeiladwyd gan SPECIFIC hefyd, ac yn ddiweddar enwodd RICS Cymru y prosiect hwn yn Brosiect y Flwyddyn. Yn ei blwyddyn gyntaf, llwyddodd yr Ystafell Ddosbarth Weithredol i gynhyrchu dros 1.5 gwaith yn fwy o ynni nag y'i defnyddiodd.


Swansea University's energy-positive office

Mae ynni adnewyddadwy yn rhan fawr o'n gwaith ymchwil yma yn y coleg, ac rydym yn defnyddio ein harbenigedd i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf trwy fynd â'n gwaith ymchwil ar daith. Yng Ngŵyl Wyddoniaeth Prifysgol Abertawe eleni, rhwng 3 a 8 Tachwedd, bydd SPECIFIC yn cynnal gweithgaredd bwrdd rhyngweithiol a fydd yn cynnwys plant yn creu paneli solar gan ddefnyddio llus.

Mae'r Beic Hydrogen hefyd yn gwibio o amgylch ffeiriau gwyddoniaeth cenedlaethol, sy'n dangos ein gwaith ymchwil sy'n gweithio tuag at ddefnyddio hydrogen fel cludydd ynni cyffredinol. Yn ystod y digwyddiadau hyn, gallwch fynd ar y beic a gwylio, mewn amser real, wrth i'ch ynni gael ei storio fel nwy hydrogen. Os byddwch chi wedi creu digon o hydrogen, gallwch wylio wrth iddo gael ei losgi yn ein llosgwr micro i ddychwelyd eich ynni.

Gwneir ymdrech fawr i fynd â'n gwaith ymchwil at y gymuned, ond rydym hefyd yn annog ymwelwyr i ddod i brofi STEM yma ar ein campws. Eleni, rydym ni wedi croesawu dros 300 o blant ysgol i'n campws i fynd ar daith o'n cyfleusterau, gwrando ar sgyrsiau ysbrydoledig gan ymchwilwyr byd-arweiniol a chymryd rhan mewn sesiynau ymarferol amrywiol.

Os hoffech ddod i ymweld â ni, cysylltwch â ni drwy anfon neges e-bost at engineering@swansea.ac.uk neu ffonio 01792 295514.

Tîm STEM yn cefnogi Cynllun Addysg Beirianneg Cymru – gogledd Cymru

Aeth Laurence Baron, Engineering Broughton, i Ffair STEM Big Bang Cymru yn Llandudno a chymerodd ran yn rowndiau terfynol EESW, yn beirniadu'r cynigion gan ysgolion a cholegau yn ogystal â chynorthwyo Ysgol Uwchradd Penarlâg gyda'r prosiect dylunio a roddodd iddyn nhw, sef 'Aircraft iTable'.

Er na enillodd Ysgol Uwchradd Penarlâg wobr, cafodd ei henwebu am ddwy (potensial masnachol gorau a'r adroddiad cyffredinol gorau), a chafodd sgôr o 82% i gyrraedd yr wythfed safle ar y cyfan, sy'n ymdrech dda iawn.

Cysyniad yr 'iTable' oedd dylunio bwrdd yr oedd modd ei blygu allan/i fyny/i lawr i'w osod mewn awyren sydd â'r holl gysylltedd angenrheidiol ar gyfer 'swyddfa mewn bwrdd'.

Ar ôl ymweliad â Broughton i weld Sentinel RMk1, roedd modd i'r tîm sefydlu manyleb gan ddilyn elfennau sylfaenol y broses rydym yn ei defnyddio i ddatblygu cynnyrch. Dangosodd y tîm ddull rhesymegol a thrylwyr o gyflawni'r dasg, a chynhyrchwyd adroddiad terfynol manwl a dderbyniodd enwebiad haeddiannol.

Mae menter STEM Raytheon UK wedi'i hen sefydlu, ac mae'n dangos buddsoddiad a chymorth i gymunedau ac ysgolion lleol. Mae'r fenter yn cefnogi her Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r prinder sgiliau technolegol cenedlaethol yn rhagweithiol ac mae'n darparu gwaith ymgysylltu yn holl safleoedd Raytheon. Mae ein menter STEM hefyd yn cefnogi ein gweithwyr, sy'n eu galluogi i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf. Bellach, mae gennym dros 170 o lysgenhadon STEM cofrestredig, gyda chynrychiolaeth ar draws ein holl brif safleoedd.

Ffair Big Bang – De Cymru – enillwyr ac enwebeion gwobrau EESW

Sponsor Noddwyr	**Award** Gwobr	**Nominees** Enwebeion	**Winner and link company** Enillydd ac eu Cwmni
AIRBUS	**Most Innovative or Adapted Design** Y Cynllun Arloesol neu Addasedig Gorau	65 Ysgol Maesydderwen 66 Cardinal Newman RC School	65 Ysgol Maesydderwen Working with University of Wales Trinity Saint David
Continental	**Project with the Most Commercial Potential** Y Prosiect â'r Potensial Masnachol Mwyaf	15 Cardiff High School 37 Ysgol Gyfun Emlyn 1 45 Ysgol Uwchradd Aberteifi 51 Bassaleg School 60 Pembrokeshire College 2	60 Pembrokeshire College 2 Working with Valero
Ford	**Best Engineering Design** Y Cynllun Peirianneg Gorau	19 Llanishen High School 2 27 Whitchurch High School 4	19 Llanishen High School 2 Working with GE Aviation
GENERAL DYNAMICS United Kingdom Limited	**Best Overall Team Performance** Y Perfformiad Tîm Cyffredinol Gorau	6 Cynffig Comprehensive School 53 Caerleon Comprehensive School 2 54 Rougemont School 1 64 Ysgol Y Preseli 82 St Alban's RC High School 2	6 Cynffig Comprehensive School Working with Sony UK Tec
IChemE Advancing Chemical Engineers Worldwide	**Best Chemical/Process Engineering Design** Y Cynllun Peirianneg Gemegol / Broses Gorau	4 Brynteg School 2 74 Gower College Swansea, Tycoch 2	4 Brynteg School 2 Working with SAS International
IET The Institution of Engineering and Technology	**Best Application of Engineering and Technology** Y Defnydd Gorau o Beirianneg a Thechnoleg	16 Howell's School 1 19 Llanishen High School 2 47 Monmouth School for Boys 60 Pembrokeshire College 2	47 Monmouth School for Boys Working with Renishaw
Institution of Mechanical Engineers	**Best Appreciation of Safety Issues** Y Gwerthfawrogiad Gorau o Faterion Diogelwch	40 Ysgol Maes y Gwendraeth 1 50 St Joseph's School and Sixth Form Centre 2 59 Pembrokeshire College 1 68 Treorchy Comprehensive School 2	40 Ysgol Maes y Gwendraeth 1 Working with National Botanic Garden of Wales
INDUSTRY WALES Growing Welsh Technology and Manufacturing Business Globally	**Most Effective Presentation of the Chosen Solution** Y Cyflwyniad Mwyaf Effeithiol o'r Ateb	17 Howell's School 2 15 Cardiff High School 37 Ysgol Gyfun Emlyn 1 47 Monmouth School for Boys	37 Ysgol Gyfun Emlyn 1 Working with Aberystwyth University
Power & Water	**Best Application of Science** Y Defnydd Gorau o Wyddoniaeth	17 Howell's School 2 21 St John's College 1 39 Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin 77 Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe	77 Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe Working with Power and Water
Swansea University Prifysgol Abertawe	**Best Energy Appreciation** Y Gwerthfawrogiad Gorau o Ynni	34 Queen Elizabeth High School 50 St Joseph's School and Sixth Form Centre 2	50 St Joseph's School and Sixth Form Centre 2 Working with Weartech
	Best Working Model or Prototype Y Model Gweithio neu'r Prototeip Gorau	16 Howell's School 1 17 Howell's School 2 47 Monmouth School for Boys 59 Pembrokeshire College 1 60 Pembrokeshire College 2	16 Howell's School 1 Working with Renishaw
TATA STEEL	**Best Application of Maths** Y Defnyddd Goran o Fathemateg	21 St John's College 1 22 St John's College 2	21 St John's College 1 Working with the University of South Wales
VALERO	**Best Appreciation of Environmental Issues** Y Gwerthfawrogiad Gorau o Faterion Amgylcheddol	49 St Joseph's School and Sixth Form Centre 1 50 St Joseph's School and Sixth Form Centre 2 70 Bishop Gore School 83 Cowbridge Comprehensive School	70 Bishop Gore School Working with the University of Wales Trinity Saint David
Llywodraeth Cymru Welsh Government	**Most Innovative Solution to the Project Set** Yr Ateb Mwyaf Arloesol i'r Prosiect	3 Brynteg School 1 37 Ysgol Gyfun Emlyn 1 66 Cardinal Newman RC School 76 Ysgol Gyfun Gwyr 81 St Alban's RC High School 1	66 Cardinal Newman RC School Working with Capita
wjec cbac	**Best Overall Written Report** Yr Adroddiad Ysgrifenedig Cyffredinol Gorau	2 Bridgend College 16 Howell's School 1 23 St Teilo's CIW High School 27 Whitchurch High School 4 45 Ysgol Uwchradd Aberteifi 82 St Alban's RC High School 2	27 Whitchurch High School 4 Working with GE Aviation
ZODIAC AEROSPACE	**Most Innovative Application of an Existing Technology** Y Defnydd Mwyaf Arloesol o Dechnoleg Gyfredol	3 Brynteg School 1 35 Ysgol Dyffryn Taf 1 42 Penglais School 81 St Alban's RC High School 1	81 St Alban's School 1 Working with Meritor
The Big Bang Fair	**Big Bang nominations – three projects selected to go forward to the Big Bang National Fair in March 2019**	60 Pembrokeshire College 2 16 Howell's School 1 81 St Alban's RC High School 1	

Tymor newydd yn lansio her newydd

Mae Her Dechnoleg Land Rover 4x4 mewn Ysgolion, sef un o heriau prosiect STEM gorau'r byd, bellach ar agor i holl ysgolion uwchradd, colegau a grwpiau ieuenctid y DU i gofrestru ar gyfer tymor 2018/19.

Mae'r myfyrwyr yn gweithio mewn timau bach i ddylunio ac adeiladu Land Rover y dyfodol, gan arddangos eu doniau peirianneg. Rhoddir rolau gwahanol i aelodau pob tîm, sy'n gweithredu fel busnes bach, ac mae myfyrwyr yn cryfhau eu sgiliau rheoli prosiect, marchnata, peirianneg a chyfathrebu.

Bydd y timau llwyddiannus yn cystadlu mewn cystadlaethau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Gall timau gofrestru ar-lein yn awr a dechrau gweithio ar eu cerbyd.

Mae'r timau'n dylunio eu ceir gan ddefnyddio cyfuniad o sgiliau dylunio-a-chreu a meddalwedd dylunio â chymorth cyfrifiadur/gweithgynhyrchu â chymorth cyfrifiadur (CAD/CAM).

Mae'r myfyrwyr yn adeiladu cerbyd 4x4 radio-reoledig yn ôl manylebau a osodwyd gan beirianwyr Jaguar Land Rover go iawn. Rhaid i'r cerbyd lywio a goresgyn rhwystrau yn llwyddiannus ar drac prawf oddi ar y ffordd sydd yn un mor anodd â'r peth go iawn, gan efelychu galluoedd cerbyd 4x4 maint llawn. Gall pob tîm arddangos y cerbyd mewn rownd derfynol ranbarthol i gystadlu am le yn rownd derfynol genedlaethol y DU.

Alison Hill
Swyddog y wasg Land Rover 4x4 mewn Ysgolion

Caiff mentoriaid Jaguar Land Rover a llysgenhadon STEM eu neilltuo i dimau i roi cyngor ac arweiniad i fyfyrwyr, gan ddarparu adnodd gwerthfawr gyda gwybodaeth am y diwydiant.

Caiff yr her ei fapio yn erbyn y Cwricwlwm Cenedlaethol gan OCR, a'r deunyddiau dull prosiect ar gyfer arholiadau cenedlaethol Caergrawnt mewn peirianneg ar gyfer pedwar cymhwyster, gydag OCR yn darparu dogfennau'r prosiect er mwyn cynorthwyo addysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Gall myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn Land Rover 4x4 mewn Ysgolion hefyd ennill dyfarniadau Cadet Diwydiannol, ysgoloriaethau peirianneg Arkwright, adran sgiliau Cynllun Dug Caeredin a chredydau adran sgiliau Dyfarniad Crest.

Cynigir ysgoloriaeth £1,000 i bencampwyr y DU Her Dechnoleg Land Rover 4x4 mewn Ysgolion i ddilyn unrhyw un o'r cyrsiau peirianneg a gynigir ym Mhrifysgol Harper Adams.

Eleni, mae yna her arloesi ACES newydd (mae'r byrfodd ACES yn sefyll am awtomatig, cysylltiedig, trydanol ac wedi'i rannu), a fydd yn herio peirianwyr ifanc i ddatblygu cysyniadau creadigol newydd ar gyfer nodwedd neu system yn y dyfodol. Mae'r her yn adlewyrchu sefyllfa gyfnewidiol y diwydiant modurol. O 2020 ymlaen, bydd pob cerbyd newydd Jaguar Land Rover wedi'i drydaneiddio, fel rhan o fuddsoddiad y cwmni mewn cerbydau a thechnolegau ACES.

Dywedodd Nelson Vale, rheolwr prosiect rhyngwladol, Land Rover 4x4 mewn Ysgolion: "Mae'r gystadleuaeth beirianneg boblogaidd hon i fyfyrwyr yn gyfle gwych i fyfyrwyr roi'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn yr ystafell ddosbarth ar waith, gweithio gyda pheirianwyr yn y diwydiant ac ennill achrediadau a dyfarniadau gwerthfawr. Mae'r gystadleuaeth yn croesawu heriau'r diwydiant modurol yn y dyfodol, gyda phwysigrwydd cynyddol peirianneg meddalwedd, a cherbydau hunanreolus, cysylltiedig, gan sicrhau ei fod yn berthnasol i gyfleoedd gyrfaol."


Her trac oddi ar y ffordd EDGE 4X4 yn Rownd Derfynol y DU 2018 Land Rover 4x4 mewn Ysgolion

Dywedodd Victoria Perry, rheolwr effaith gymdeithasol fyd-eang Jaguar Land Rover: "Rydym ni eisiau ysbrydoli mwy o bobl ifanc ddawnus i fod yn beirianwyr i'n helpu i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o gerbydau a thechnolegau awtomatig, cysylltiedig, trydanol ac wedi'u rhannu. Mae Her Dechnoleg Land Rover 4x4 mewn Ysgolion yn dangos pwysigrwydd a pherthnasedd pynciau STEM yn y gweithle, ac mae hefyd yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddysgu am brosesau dylunio a pheirianneg bywyd go iawn.

"Mae cyfranogwyr blaenorol wedi ymuno â ni fel prentisiaid, israddedigion a graddedigion, a gobeithiwn ysbrydoli hyd yn oed mwy o fyfyrwyr disglair i ymuno â ni yn y dyfodol."

Gall myfyrwyr ac athrawon ddarganfod mwy am Her Dechnoleg Land Rover 4x4 mewn Ysgolion ar www.4x4inschools.co.uk a'i dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol.

Ffair Big Bang – Gogledd Cymru – Enillwyr ac enwebeion gwobrau EESW

Sponsor Noddwyr	**Award** Gwobr	**Nominees** Enwebeion	**Winner and link company** Enillydd ac eu Cwmni
AIRBUS	**Best Application of Engineering and Technology** Y Defnydd Gorau o Beirianneg a Thechnoleg	7 Ysgol Uwchradd Glan Clwyd Team 2 8 Alun School Team 1 19 Ysgol Friars Team 1 20 Ysgol Friars Team 2 25 Coleg Cambria, Yale	8 - Alun School Team 1 Working with Toyota
Power Nuclear Horizon Nuclear Power	**Best Energy Appreciation** Y Gwerthfawrogiad Gorau o Ynni	1 Ysgol Aberconwy 5 Prestatyn High School	1 Ysgol Aberconwy Working with Dŵr Cymru Welsh Water
IET The Institution of Engineering and Technology	**Most Innovative Solution to the Project Set** Yr Ateb Mwyaf Arloesol i Brosiect	5 Prestatyn High School 17 Coleg Meirion-Dwyfor, Pwllheli Team 2 19 Ysgol Friars Team 1 20 Ysgol Friars Team 2	19 Ysgol Friars Team 1 Working with Photonics Academy of Wales at Bangor
Institution of Mechanical Engineers	**Best Use of Mechanical Engineering Principles** Y Defnydd Gorau o Egwyddorion Peirianneg Fecanyddol	6 Ysgol Uwchradd Glan Clwyd Team 1 7 Ysgol Uwchradd Glan Clwyd Team 2 18 Coleg Meirion-Dwyfor, Pwllheli 3 24 Welshpool High School 25 Coleg Cambria, Yale	18 Coleg Meirion-Dwyfor, Pwllheli 3 Working with EESW
TATA STEEL	**Best Overall Team Performance** Y Perfformiad Tîm Cyffredinol Gorau	6 Ysgol Uwchradd Glan Clwyd Team 1 12 Hawarden High School 21 Ysgol Uwchradd Bodedern 22 Ysgol Uwchradd Caergybi Team 1 25 Coleg Cambria, Yale	6 Ysgol Uwchradd Glan Clwyd Team 1 Working with Knitmesh
Llywodraeth Cymru Welsh Government	**Project with the Most Commercial Potential** Y Prosiect â'r Potensial Masnachol Mwyaf	12 Hawarden High School 21 Ysgol Uwchradd Bodedern 22 Ysgol Uwchradd Caergybi Team 1 23 Ysgol Uwchradd Caergybi Team 2	22 Ysgol Uwchradd Caergybi Team 1 Working with BAE Systems and Babcock
Llywodraeth Cymru Welsh Government	**Best Application of Science** Y Defnydd Gorau o Wyddoniaeth	2 Ysgol Bryn Elian Team 1 7 Ysgol Uwchradd Glan Clwyd Team 2 19 Ysgol Friars Team 1	7 Ysgol Uwchradd Glan Clwyd Team 2 Working with Mott Macdonald Bentley
wjec cbac	**Best Overall Written Report** Yr Adroddiad Ysgrifenedig Cyffredinol Gorau	15 Coleg Meirion-Dwyfor, Dolgellau Team 2 20 Ysgol Friars Team 2 21 Ysgol Uwchradd Bodedern 23 Ysgol Uwchradd Caergybi Team 2	20 Ysgol Friars Team 2 Working with Photonics Academy of Wales at Bangor
The Big Bang Fair	**Big Bang Nominations – Two projects selected to go forward to the Big Bang National Fair in March 2019** Welsh		8 Alun School Team 1 Working with Toyota 19 Ysgol Friars Team 1 Working with Photonics Academy of Wales at Bangor

Rhagoriaeth hyfforddiant peirianneg y Llu Awyr Brenhinol yng Nghymru ers 80 mlynedd

SR Rowley
Wg Cdr / Stn Cdr MOD Sain Tathan a CO Rhif 4 Ysgol Hyfforddiant Technegol MOD Sain Tathan

Un o hyfforddeion y Llu Awyr Brenhinol yn cynnal Uned Pŵer ar y Tir

Ers 1938, mae'r Llu Awyr Brenhinol wedi bod yn darparu hyfforddiant peirianneg o ansawdd uchel yng nghalon Bro Morgannwg, de Cymru.

Fe'i sefydlwyd ar 1 Medi 1938 yn y cyfnod yn arwain at yr Ail Ryfel Byd, a rôl gyntaf Llu Awyr Brenhinol Sain Tathan oedd cynnal Ysgol Hyfforddiant Technegol Rhif 4, i addysgu peirianwyr awyr i ymgymryd â thasgau technegol wrth hedfan ar awyrennau bomio. Mae gan yr ysgol yr anrhydedd o fod wedi hyfforddi 15 o'r 19 peiriannydd awyr a hedfanodd yn yr awyrennau yng Nghyrch Chwalwyr yr Argae gan Sgwadron 617 ar 17 Mai 1943.

Heddiw, mae Ysgol Hyfforddiant Technegol Rhif 4 yn parhau i weithredu yn y Weinyddiaeth Amddiffyn Sain Tathan (a ail-enwyd yn MOD Sain Tathan yn 2006). Fodd bynnag, mae ei rôl wedi datblygu o hyfforddi peirianwyr ar awyrennau i dechnegwyr tra medrus ar y tir, yn benodol Crefft Technegydd Cyffredinol y Llu Awyr Brenhinol, sy'n cael ei adnabod fel Grŵp Crefft 5.

Mae'r grŵp crefft hynod amrywiol hwn yn cynnal amrywiaeth eang o gyfarpar i alluogi a chynnal gweithrediadau awyrennau yn y DU ac o amgylch y byd. O beiriannau tân maes awyrennau i eneraduron pŵer ar y tir, cyfarpar llwytho awyrennau i offer deintiol a Land Rovers i gerbydau arfog, mae galluoedd peirianneg technegwyr cyffredinol y Llu Awyr Brenhinol yn rhyfeddol.

Gall crefftwyr y gweithdy hyd yn oed greu cydrannau awyrennau o ddeunyddiau crai mewn lleoliadau byddin fel Affganistan.

Mae thua 200 o hyfforddeion ym MOD Sain Tathan ar un adeg, felly mae'r ysgol yn brysur o hyd, ac yn ymdrechu i ddarparu'r profiad gorau i'r hyfforddeion ac allbwn i reng flaen y Llu Awyr Brenhinol. Yn ogystal â gwthio ffiniau technegol, mae'r ysgol hefyd yn ymfalchïo yn ei darpariaeth dyletswydd gofal, gan ofalu am les yr hyfforddeion wrth iddynt nhw ddysgu. Mae Ysgol Rhif 4 yn destun archwiliadau Ofsted, yn yr un modd ag unrhyw ysgol neu goleg arall, felly rhaid iddi sicrhau y cynhelir y safonau bob amser, sy'n arbennig o bwysig i hyfforddeion dan 18 oed, neu rai o gefndiroedd bregus.

Mae'r hyfforddiant a gyflwynir gan yr ysgol hefyd yn cyd-fynd â dyfarniad prentisiaeth Lefel 3 – sef cam cyntaf llawer o gyfleoedd datblygu gyrfa a gynigir gan y Llu Awyr Brenhinol. Cafodd yr ymroddiad hwn i broffesiynoldeb a buddsoddi mewn talent ei gydnabod yn ddiweddar gan y Gwasanaeth Prentisiaethau Cenedlaethol, wrth i'r Llu Awyr Brenhinol gael ei enwi'n enillydd y categori Cyflogwr Macro (dros 5,000 o weithwyr) a'i gynnwys ar restr uchel ei pharch y 100 Cyflogwr Prentisiaethau gorau.

Nid yw'r ysgol yn canolbwyntio ar ei swyddogaeth Llu Awyr Brenhinol yn unig; mae hefyd yn chwarae rôl weithredol yn y gymuned leol, fel cefnogi mentrau elusennol a hyrwyddo STEM. Hyd yma yn '2018: Blwyddyn Peirianneg', mae'r ysgol wedi cynnal 11 o ddigwyddiadau STEM mawr, gan gyrraedd dros 30,000 o bobl a chodi eu hymwybyddiaeth o beirianneg – ac roedd llawer o'r rhain yn bobl ifanc neu'n blant. Mae'r ysgol hefyd yn croesawu ei chydweithrediad diweddar â Chynllun Addysg Beirianneg Cymru.

Mae'r Llu Awyr Brenhinol yn annog amrywiaeth yn ei weithlu, gan recriwtio pobl o bob grŵp ethnig a rhywedd, ac mae wedi ennill nifer o wobrau am ei ymdrechion. O rai sy'n gadael yr ysgol i unrhyw un sy'n chwilio am her newydd, mae Peirianneg y Llu Awyr Brenhinol yn cynnig cyfleoedd cyffrous i bobl sy'n dymuno dysgu crefft a rhoi cynnig ar rywbeth sy'n wahanol i swydd arferol (#NoOrdinaryJob).

Personél Ysgol Hyfforddiant Technegol Rhif 4 ar orymdaith yn derbyn Rhyddid Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (2 Mehefin, 2018)

Newport Wafer Fab, gwneuthurwr CHIP y Clwstwr CS

Cymru a'r pedwerydd chwyldro diwydiannol

Joanne Daniels
Partner Busnes Dysgu a Datblygu
Newport Wafer Fab Ltd

Helpodd glo Cymru i danio'r chwyldro diwydiannol cyntaf, gyda gweithfeydd dur Merthyr Tudful – Cyfarthfa a Dowlais – yn arwain at sefydlu tref ddiwydiannol gyntaf Cymru.

Erbyn 1830, roedd Sir Fynwy a Dwyrain Morgannwg yn cynhyrchu hanner y dur oedd yn cael ei allforio gan Brydain. Bellach, gall y dechnoleg lled-ddargludyddion cyfansawdd a ddatblygir yng Nghymru weithredu fel sail i nifer o'r technolegau sy'n dod i'r amlwg yn y pedwerydd chwyldro.

Mae prosesu lled-ddargludyddion ar silicon wedi bod yn cael ei ddefnyddio ers dros 50 mlynedd, ond oherwydd y galw cynyddol am ddefnyddiau terfynol y cynnyrch hwn, fel ffonau symudol, technoleg gyfrifiadurol a chanolfannau data, mae'n anodd bodloni'r galw byd-eang cynyddol am raglenni cyflymach fyth. Datblygwyd cyfuniadau o ddeunyddiau newydd o'r tabl cyfnodol, fel galiwm nitrid, sy'n gweithio perfformiad silicon 50 gwaith yn well. Gyda chyflymder uwch a cholledion pŵer is, gellir eu defnyddio ar gyfer synhwyro golau ac allyrru dros sbectrwm eang (ffotoneg), rhaglenni RF, synwyryddion, ac yn y byd meddygol lle mae bywyd batri'n hollbwysig.

I fodloni'r galw byd-eang cynyddol am raglenni cyflymach fyth, datblygwyd cyfuniadau o ddeunyddiau newydd o'r tabl cyfnodol fel galiwm nitrid, sy'n gweithio perfformiad silicon 50 gwaith yn well.

Gyda chyflymder uwch a cholledion pŵer is, gellir eu defnyddio ar gyfer synhwyro golau ac allyrru dros sbectrwm eang (ffotoneg), cymwysiadau RF, synwyryddion ac yn y byd meddygol lle mae bywyd batri'n hollbwysig.

Mae lled-ddargludyddion cyfansawdd yn ysgogi technolegau'r dyfodol: o'r byd cysylltiedig, Rhyngrwyd Pethau i roboteg, cerbydau hunan-yrru, 5G a thechnolegau gofal iechyd. Mae lled-ddargludyddion cyfansawdd yn effeithio ar y ffordd rydym yn byw, yn gweithio ac yn treulio ein hamser hamdden, a byddant yn parhau i wneud hynny. Y lled-ddargludyddion cyfansawdd sy'n cael eu creu yma yng Nghymru yw'r dechnoleg sy'n galluogi bywyd yn yr 21ain ganrif.

Mae CS Connected yn cynrychioli partneriaid busnes ac academaidd yng Nghymru sy'n ymwneud ag ymchwilio, datblygu, arloesi a/neu weithgynhyrchu cynnyrch sy'n ymwneud â lled-ddargludyddion cyfansawdd ac sy'n cael eu galluogi ganddynt.

Y sefydliadau sydd ynghlwm â hyn yw: Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe, y Ganolfan Lled-ddargludyddion Cyfansawdd, y Catapwlt Lled-ddargludyddion, IQE PLC, Newport Wafer Fab, SPTS a Microsemi.

Mae'r cydweithrediad unigryw hwn rhwng cwmnïau eisoes yn lansio technolegau a fydd wrth wraidd y pedwerydd chwyldro diwydiannol. Mae gan y Clwstwr botensial i greu dros 2,000 o yrfaoedd uwch-dechnoleg ychwanegol, a fydd yn cyfrannu'n sylweddol at drawsnewid economi Cymru.

Dywedodd Dr Paul James, rheolwr gyfarwyddwr Newport Wafer Fab: "Mae hon yn her gyffrous, gan y bydd y Clwstwr yn creu llawer o swyddi uwch-dechnoleg yma yng Nghymru.

"Bydd angen llawer o beirianwyr a thechnolegwyr newydd arnom i fanteisio ar y cyfle hwn.

"Bydd y clwstwr yn darparu amrywiaeth eang iawn o gyfleoedd gyrfa peirianneg a gwyddonol ar gyfer y genhedlaeth nesaf, yn enwedig i'r rhai sy'n frwd ynghylch technoleg a pheirianneg, ac sy'n cael eu hysgogi gan y syniad o weithio ar flaen y gad ym maes technoleg."

Newport Wafer Fab yw gwneuthurwr haenell silicon integredig a chyfansawdd ar silicon, cynnau y byd, ac mae'n darparu gwasanaethau gweithgynhyrchu i Glwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd Cymru (CS Connected) a'r farchnad ffowndri fyd-eang ehangach.

Fel rhan o glwstwr CS, mae gennym gynlluniau twf uchelgeisiol i ehangu ôl troed gweithgynhyrchu'r safle.

Edrychwn ymlaen at weithio gydag EESW i annog mwy o bobl ifanc i ymddiddori yn ein diwydiant ac i ystyried gyrfaoedd gyda ni.

Rali 2018 – ennyn diddordeb y genhedlaeth nesaf

Jonathan Gill
Swyddog cenedlaethol y wasg MPA Creative

Bydd Rali GB Cymru Dayinsure hir-ddisgwyliedig eleni ar 4-7 Hydref unwaith eto'n ganolbwynt i nifer o fentrau pellgyrhaeddol sy'n ceisio ysbrydoli'r cenedlaethau nesaf o dalent ifanc uchelgeisiol.

Bydd presenoldeb Pencampwriaeth Rali'r Byd FIA gyffrous a thechnolegol yn y rhanbarth yn cael ei ehangu unwaith eto gan bresenoldeb arddangosfa STEM 'Big Bang' Ymwybyddiaeth o'r Diwydiant ym Mhentref y Rali. Dyma ganolbwynt dynamig y digwyddiad, sydd wedi'i leoli yn ardal ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy, lle bydd yr holl dimau WRC wedi'u lleoli drwy gydol y digwyddiad chwaraeon modurol proffil uchel.

Bydd dros 1,500 o fyfyrwyr sy'n astudio pynciau STEM allweddol mewn sefydliadau addysg lleol yn ymweld â ffair Big Bang, a fydd yn cynnal llu o weithgareddau rhyngweithiol diddorol, wedi'u darparu gan nifer o arddangoswyr rhagweithiol. Ar ben hynny, bydd yr arddangosfa ar agor i bawb sy'n ymweld â Phentref y Rali – un o nifer o gyfleoedd rhad ac am ddim fydd ar gael i'r cyhoedd.

"Mae ymgysylltu ag addysg yn un o sawl ffordd y mae'r rali'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i fywyd yng Nghymru," esboniodd Ben Taylor, sef rheolwr gyfarwyddwr Rali GB Cymru Dayinsure.

Parhaodd Ben: "Mae lleoliad Pentref y Rali, drws nesaf i safle peiriannau Toyota, a phresenoldeb timau rali WRC gorau'r byd, yn rhoi cyfle gwych i ni ennyn diddordeb y genhedlaeth nesaf. Mae'r cynllun Big Bang rhyngweithiol yn ffordd gyffrous o ddangos yr hyn sy'n ddeniadol am yrfa mewn chwaraeon modurol neu'r diwydiant modurol ehangach."

Gan ychwanegu at gyfraniad Toyota, mae ei gangen Brydeinig hefyd wedi cefnogi cystadleuaeth gyffrous i fyfyrwyr ifanc ddylunio corff car, gyda'r cynnig buddugol yn cael ei ychwanegu at gar rali GT86.

Pan fydd y GT86 wedi'i gwblhau, bydd yn cael ei arddangos yn yr arddangosfa Big Bang sy'n ganolbwynt i Bentref dynamig y Rali.

Wedi'i gydlynu ar y cyd rhwng trefnwyr y rali a Chynllun Addysg Beirianneg Cymru (EESW) ar ran Llywodraeth Cymru, roedd yr ornest ysbrydoledig ar agor i bob ysgol gynradd ac uwchradd a choleg trwy gydol y DU, gyda dosbarthiadau mynediad unigol ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2, 3, 4 a 5.

Mae enillwyr y pedwar dosbarth yn cael eu gwahodd i Bentref y Rali, lle byddant yn derbyn bag yn llawn gwobrau rali, trwy garedigrwydd Performance Clothing, ac yn mwynhau cipolwg y tu ôl i'r llenni yn un o'r campau mwyaf cyffrous a thechnolegol yn y byd.

Cafodd dyluniad buddugol y llynedd – a grëwyd gan Rheinallt Jones, 12 oed, o Ysgol Gyfun Llangefni, Ynys Môn – ei ddatgelu'n swyddogol gan Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith Llywodraeth Cymru a'r seren rasio WRC Toyota GAZOO, Jari-Matti Latvala.

Ken Skates AC gydag enillydd y llynedd, Rheinallt Jones, a Jari-Matti Latvala

Cafodd Rheinallt gyfle i weld ei ddyluniad buddugol yn addurno'r GT86, yn ogystal â derbyn model wrth raddfa o'i gar buddugol ac argraff arlunydd o'i ddyluniad. Cafodd y ddau eu llofnodi gan yrwyr rasio WRC Latvala, Juho Hänninen ac Esapekka Lappi, yn ogystal ag arweinydd y tîm a phencampwr WRC bedair gwaith, Tommi Mäkinen.

Mae'r rali Pencampwriaeth y Byd – a enillwyd y llynedd gan yr arwr lleol Elfyn Evans – hefyd yn cynnig mynediad am ddim i bob plentyn dan 15 oed, gyda gwarcheidwad.

Herio peirianwyr ifanc i feddwl mewn ffordd wahanol

Digideiddio – agor meddyliau ifanc i hen heriau diwydiannol

Gash Bhullar
Control 2K

Mae geiriau fel gemeiddio neu rith-ffatrïoedd yn cael defnyddio fwyfwy yn ddiweddar, ond nid oes llawer o bobl yn gwybod eu hunion ystyr neu oblygiadau. Rydym ni'n gwybod bod y dyfodol yn ddigidol, neu dyna beth mae pobl yn ei ddweud, beth bynnag, a dychymyg cenedlaethau'r dyfodol fydd yn penderfynu sut fydd yn cael ei lywio.

Mae Control 2K, fel cwmni arloesi, wedi ystyried y dyfodol hefyd. Mae'n dehongli'r geiriau hyn yn ei ffordd ei hun, a'r hyn maen nhw'n ei olygu i'r sector gweithgynhyrchu.

Mae pob un ohonom yn dibynnu ar ddiwydiannau gweithgynhyrchu i gynhyrchu ein ceir, awyrennau a chychod, creu ein ffonau symudol a phecynnu ein bwyd, yn yr un modd â'r ychydig gannoedd o flynyddoedd diwethaf. Rydym yn meddwl am ffyrdd newydd o greu pethau a defnyddio'r dechnoleg sydd ar gael i wneud pethau'n gynt, yn rhatach ac yn fwy dibynadwy, yn ddelfrydol, ond mae dibynadwyedd yn gallu bod yn destun strategaeth farchnata gan fod dadleuon ynghylch a yw'r gwerthwyr eisiau i chi gadw gafael ar bethau am flynyddoedd lawer.

Mae technoleg heddiw yn ymwneud â chasglu gwybodaeth (data) fel bod modd i ni wneud penderfyniadau mwy gwybodus a chysylltu mwy o brosesau gyda'i gilydd i'w gwneud yn haws i weld y darlun llawn pan fydd pethau'n mynd o'i le.

Mae diwydiannau gwahanol yn symud ar gyflymdra gwahanol, felly os gallwch ddwyn syniadau o feysydd fel y diwydiant gemau cyfrifiadurol a'u cymhwyso i weithgynhyrchu, gallech fod ar eich ennill!

Rydym yn herio peirianwyr ifanc i feddwl mewn ffordd wahanol a gweld sut gallant ymgorffori synwyryddion mwy newydd neu'r hyn a elwir yn ddyfeisiau Rhyngrwyd Pethau, i gysylltu gwahanol systemau â meddalwedd Industreweb. (www.industreweb.com). Caiff y technolegau hyn eu harddangos yn Waterton – sef Canolfan Arloesi Cymru ar gyfer Gweithgynhyrchu Digidol. Dewch i'n gweld ni ar waith.

Tyfu gwyddoniaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Yr Athro Peter Halligan
Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru

Mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi bod yn awyddus i annog gweithgareddau sy'n darparu profiad cadarnhaol a chofiadwy o wyddoniaeth a pheirianneg i bobl ifanc, gan ei bod yn cefnogi gwyddoniaeth fel ffordd o gynyddu ffyniant a lles Cymru.

Yn sgil hyn, rwy'n falch o weld bod tîm 'Endgame' o Ysgol Gynradd Caedraw Merthyr wedi gwneud cynnydd anhygoel trwy Her Ysgolion Cynradd Jaguar, i fod yn bencampwyr y DU gyfan, yn ogystal ag ennill tair gwobr yn eu dosbarth, am y car cyflymaf, y cyflwyniad llafar gorau a'r car a ddyluniwyd orau.

Yn ogystal â chynnig fy llongyfarchiadau fy hun i'r pedwar disgybl yn y tîm, eu hathrawon a'u cefnogwyr, rwy'n gobeithio y byddan nhw'n manteisio ar eu llwyddiant ac yn parhau i ymddiddori ac ymgysylltu â gwyddoniaeth a pheirianneg trwy gydol eu gyrfaoedd.

Roeddwn i'n arbennig o falch o weld ysgol gynradd arall ym Merthyr, Gwaunfarren, yn ennill y tlws nawdd a marchnata.

Mae'n bwysig bod pob un ohonom yng Nghymru'n cael gwell gwerthfawrogiad a dealltwriaeth gyffredinol o beth a sut mae gwyddoniaeth a thechnoleg yn ei gyfrannu at fudd cymdeithasol ac economaidd. Mae'n anodd gwneud penderfyniadau gwybodus heb ddealltwriaeth o'r fath. Maen nhw'n effeithio ar gymaint o agweddau o'n bywydau ni heddiw, o feddyginiaeth bersonoledig i'n ffonau clyfar hollbresennol y mae'n anodd byw hebddynt bellach.

Mae gan Lywodraeth Cymru, fel llawer o wledydd eraill, reswm clir a gwirioneddol dros fod yn awyddus i weld mwy o blant a phobl ifanc yn ymddiddori mewn technoleg, peirianneg a mathemateg.

Yn syml, mae angen cenedlaethau o bobl gymwys a llythrennog mewn gwyddoniaeth yng Nghymru yn y dyfodol er mwyn cynnal busnesau a diwydiannau technoleg yfory. Bydd angen mwy o bobl ifanc sydd â phrofiad o bynciau STEM er mwyn gwneud hyn ar lefel uwch, yn awr ac yn y blynyddoedd sydd i ddod, er budd Cymru.

Ers sawl blwyddyn, mae problemau wedi bod wrth annog merched i astudio rhai pynciau gwyddoniaeth – a ffiseg a chyfrifiadura yw'r pynciau sy'n peri'r broblem fwyaf. Fel gwlad fach, glyfar, fodd bynnag, ni allwn fforddio colli talent y genhedlaeth hon, na'i hanwybyddu, felly rydym ni wedi bod yn cefnogi sawl rhaglen, a gynhelir gan Gymdeithasau Dysgedig, cwmnïau preifat a chan ysgolion a phrifysgolion i helpu i ysgogi'r newid hwn.

Fel rhan o fy rôl newydd fel Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru, rwy'n goruchwylio'r tîm sy'n cynnal yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol. Mae'r academi wedi bod yn gweithredu ers 2010, ac mae wedi cyflwyno sawl allbwn trawiadol, er gwaetha'r cyllid cymharol isel sydd ganddo – sef tua £1m y flwyddyn. Mae dros £4.4m wedi cael ei fuddsoddi ers 2012, gan gynnwys bron i 70 prosiect a dros 1,000 o weithgareddau cyfoethogi STEM wedi'u darparu i dros 132,000 o fyfyrwyr/cyfranogwyr.

Mae tua 1,300 o athrawon hefyd wedi elwa ar ddigwyddiadau datblygu proffesiynol STEM. Rhoddwyd addysg broffesiynol mewn hyfforddiant cyfathrebu ymchwil i dros 57 o ymchwilwyr, yr oedd 41 ohonynt yn fenywaidd, fel bod modd iddynt ddangos esiampl fwy effeithiol i'r genhedlaeth nesaf.

Mae'r Academi hefyd yn falch o fod wedi noddi dros 4,500 o Ddyfarniadau CREST Cymdeithas Wyddoniaeth Prydain i ddisgyblion yng Nghymru, ac ar y cyfan, mae tua 11,500 o Ddyfarniadau CREST wedi cael eu rhoi yng Nghymru – sy'n sefyllfa galonogol iawn.

Mae'r rhaglen gyfoethogi addysg STEM ffurfiol, yn ceisio cynyddu canran y myfyrwyr sy'n astudio TGAU gwyddoniaeth driphlyg (bioleg, cemeg a ffiseg). Heb y cymwysterau TGAU hyn, mae'n fwy anodd symud ymlaen i wyddoniaeth Safon Uwch ac astudio yn y brifysgol ar ôl hynny.

Gyda chyfanswm cyllideb o £7.2m sy'n cynnwys arian gan Lywodraeth Cymru a Chronfeydd Strwythurol Ewropeaidd trwy WEFO, bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno ledled Cymru i gynyddu lefelau astudio a chyflawni mewn pynciau STEM ymysg myfyrwyr 11-19 oed – yn benodol trwy eu hannog i astudio gwyddoniaeth yn darparu gweithgareddau cyfoethogi STEM wedi'u targedu i ddisgyblion 11 i 13 oed mewn 20-30 o ysgolion yng ngorllewin Cymru ac ardal y cymoedd. Bydd tair blwyddyn academaidd o'r gweithgareddau hyn.

Elfen unigryw o'r rhaglen hon yw'r cyfle i ddangos pa mor effeithiol yw'r gweithgareddau ymgysylltu STEM hyn, y tu hwnt i wybodaeth anecdotaidd o arolygon.

Bydd yn cynnal astudiaeth ymchwil hydredol sy'n torri tir newydd yn rhyngwladol, yn dilyn trywydd disgyblion 11-13 oed a fydd yn dangos effaith y buddsoddiad hwn yn nyfodol Cymru trwy ddarparu gweithgareddau ymgysylltu a chyfoethogi STEM.

Tim Caedraw yn ein rownd derfynol ranbarthol

Dylunio ar gyfer y dyfodol

Lucinda Dargavel
PDR

Mae annog a harneisio talent yn bwysig dros ben, ac mae PDR (y Ganolfan Ryngwladol ar gyfer Dylunio ac Ymchwil, wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd) yn falch o weithio mewn partneriaeth ag EESW, sy'n gwneud hynny yn union. Dyluniwyd y cynllun hwn i annog myfyrwyr y chweched dosbarth i astudio cyrsiau peirianneg mewn addysg bellach neu uwch.

Mae EESW yn gweithredu trwy annog cwmnïau lleol i osod briffiau ymchwil a datblygu i fyfyrwyr Blwyddyn 12 sy'n berthnasol i broblemau go iawn yn y diwydiant. Dros gyfnod o chwe mis, mae'r myfyrwyr yn mynd ati i ddatrys y problemau hyn mewn cydweithrediad â pheirianwyr a gwyddonwyr o'r cwmnïau cysylltiedig.

Trwy roi profiad cadarnhaol i'r myfyrwyr o gydweithio'n agos gyda pheirianwyr a gwyddonwyr proffesiynol mewn sefyllfa ddiwydiannol, mae'r rhaglen yn dangos iddyn nhw bod meysydd STEM yn rhai amrywiol ac ysgogol i weithio ynddynt, gan eu bod yn gallu darparu gyrfaoedd deallusol heriol iddyn nhw lle gallan nhw wneud gwahaniaeth mawr.

Gyda dros 30 o wobrau dylunio rhyngwladol, mae PDR yn cael ei ystyried ar flaen y gad yn rhyngwladol o ran y gwasanaethau y gall eu darparu yn ymwneud â dylunio, datblygu ac ymchwil.

Mewn partneriaeth ddiweddar rhwng EESW ac Ysgol Howell, gosododd Emily Bilbie o PDR, sef rheolwr gweithdy a'r prif beiriannydd ar y prosiect hwn, dasg i fyfyrwyr chweched dosbarth i ddylunio prosthesis braich a allai gael ei argraffu'n 3D gan ddefnyddio 'Lithograffeg Stereo' (SLA). Mae'r dechneg argraffu hon yn adeiladu strwythur 3D yn raddol trwy ddefnyddio haenau o bolymer sy'n cael eu gosod gan ddefnyddio golau uwchfioled. Mae'r dull hwn yn eich galluogi i 'baentio' haenau o bolymer i greu model terfynol.

Daeth wyth myfyriwr o Ysgol Howell, ynghyd â'u hathro Andrew Ford, i PDR ar gyfer yr ymweliad safle cychwynnol â phartner diwydiannol, lle cawsant daith dywys o'r cyfleusterau, a oedd yn cynnwys yr adran brototeip a gweithgynhyrchu a'r adran lawfeddygol a phrostheteg. Yn ystod yr ymweliad, cafodd y myfyrwyr gyfle i brofi Freeform yn uniongyrchol – sef y system CAD adborth cyffyrddiadol a ddefnyddir gan y dylunwyr.

Y rhesymeg y tu ôl i'r briff oedd dylunio cynnyrch cymharol rad a fyddai'n addas i'w ddefnyddio yn y byd datblygol yn y lle cyntaf. Roedd angen i'r prosthesis newydd fod yn ymarferol yn ogystal â deniadol, a byddai'n cynnwys rhannau amrywiol mewn amrywiaeth o liwiau y byddai modd eu gosod at ei gilydd yn hawdd.

Cafodd cledr, bysedd a rhan gysyllt u'r prototeip eu creu gan ddefnyddio SLA. Cafodd y tîm o fyfyrwyr arweiniad gwybodus, gyda syniad clir o sut i rannu'r rolau a'r cyfrifoldebau, a neilltuwyd is-dimau annibynnol i'r dasg hefyd – gan arwain at ddatblygu'r mecanwaith cysylltu a rheolyddion y bysedd ar wahân.

Roedd angen i ddyluniad y prosthesis ei hun ystyried canlyniadau gwaith ymchwil helaeth yn ymwneud â data ergonomig ac anthropometrig ac roedd angen iddo hefyd ddarparu dull digonol o gysylltu'r prosthesis â'r unigolyn.

Cyn ystyried elfen ddylunio'r her, roedd angen i'r myfyrwyr amlygu'r ystyriaethau allweddol y byddai eu hangen ar ddefnyddwyr prosthesis o'r fath. Er mwyn gwneud hyn, trefnwyd cyfarfod a chyfweliad gyda rhywun oedd wedi colli un o'i aelodau er mwyn cael syniadau am y nodweddion dymunol a'r problemau posibl gyda phrosthetegau o safbwynt defnyddwyr.

Dros gyfnod y prosiect, gwelwyd sgiliau rheoli prosiect y myfyrwyr yn gwella yn sicr, a chafodd y myfyrwyr eu cyflwyno i hanfodion argraffu 3D a dylunio, yn ogystal â dysgu am gynaliadwyedd, defnyddiau masnachol, hyfywedd a chost-effeithiolrwydd.

Aethpwyd â'r prototeip cyflawn, ynghyd â'r adroddiad ysgrifenedig terfynol, i ddiwrnod gwobrwyo EESW lle cafodd y beirniaid eu plesio gan wreiddioldeb y cynnyrch, a gallent weld ei botensial ar gyfer y dyfodol. Yna, roedd y myfyrwyr wrth eu boddau i ennill gwobr Llywodraeth Cynulliad Cymru am yr ateb mwyaf arloesol i broblem.

Dyma stori lwyddiannus i EESW, gan fod mwyafrif y tîm oedd ynghlwm â'r prosiect yn gobeithio dilyn gyrfa mewn peirianneg yn y dyfodol erbyn hyn, ac mae eu brwdfrydedd wedi eu hysgogi i drafod gwelliannau i'r prototeip ymhell ar ôl iddo gael ei gwblhau.

"Mae'n gyfle gwych i addysgu peirianwyr y dyfodol," dywedodd Emily Bilbie, y peiriannydd gweithgynhyrchu a phrototeip.

"Mae bod yn rhan o'r cynllun yn golygu y gall PDR gyfrannu at ddangos bod gyrfaoedd ym maes STEM yn heriol yn ddeallusol ac yn werth chweil. Mae'r tîm yn edrych ymlaen at osod her i'r set nesaf o fyfyrwyr," dywedodd Jarred Evans, cyfarwyddwr.

Os hoffech siarad â PDR am brosiect dylunio cynnyrch neu greu prototeip, cysylltwch ag Anthony ar amcallister@pdronline.co.uk


Tîm Ysgol Ferched Howell gydag Emily Bilbie, peiriannydd PDR

Endgame – y tîm o Ysgol Gynradd Caedraw

Endgame – taith y pencampwyr cenedlaethol

Jodie Stokes
Athrawes, Ysgol Gynradd Caedraw

Roedden ni wedi gweithio'n galed i gyrraedd y cam hwn, a dyma oedd ein cyfle i ddangos beth allwn ni ei wneud! Ar ôl misoedd o waith, roedd yr amser wedi cyrraedd o'r diwedd, ac roedd hi'n bryd pacio ein holl gyfarpar a theithio i Rownd Derfynol Ranbarthol F1 mewn Ysgolion De Cymru yn Abertawe. Roedd y gwaith a'r ymroddiad wedi bod yn anodd, gan weithio mewn tri chlwb ar ôl ysgol bob wythnos a phob amser cinio ac egwyl, ond roedden ni'n benderfynol o gynhyrchu'r car Formula 1 2D cyflymaf a welodd y DU erioed.

Dyma oedd y tro cyntaf i'r un ohonom ni fod mewn cystadleuaeth o'r fath, ac wrth i ni gyraedd Abertawe, roedden ni'n teimlo'n nerfus ac yn llawn cyffro. Wrth osod ein hardal pit, sylwon ni ba mor dda oedd rhai o'r timau eraill yn edrych, ac roedd angen i ni gystadlu yn erbyn 25 o dimau eraill, a sylweddolon ni'n sydyn nad oedd yn mynd i fod yn ddigwyddiad hawdd. Dyma ni'n gweithio'n ddi-stop drwy gydol y dydd wrth i ni siarad â phedair set o feirniaid a rasio ein car.

Wrth gwrdd â'r beirniaid peirianneg, roedden ni'n edrych ymlaen at esbonio'r holl wyddoniaeth a pheirianneg y tu ôl i'n car. Un o'r rhannau anoddaf oedd ein cyflwyniad llafar, oherwydd roedd angen i ni esbonio ein prosiect cyfan mewn amser byr iawn, ac yna esbonio'r holl sgiliau STEM a ddefnyddiom i'r beirniaid pit a phortffolio – roedd gennym ni gymaint i'w ddweud! Roedd ein gyrrwr, Rio, braidd yn nerfus cyn i ni rasio'r car, ond gwnaeth yn rhyfeddol o dda, gan ddangos yr amseroedd ymateb cyflymaf yn gyson yn ystod y dydd.

Arhosom am y canlyniadau gyda'r timau eraill, ac roedden ni'n nerfus iawn. Roedden ni wrth ein boddau i ennill y gwobrau am y car cyflymaf, y car a beiriannwyd orau, pit a phortffolio gorau, cyflwyniad llafar gorau a phencampwyr rhanbarthol! Dyma oedd canlyniadau gorau'r ysgol erioed, ac roedden ni wedi llwyddo i fynd ymlaen i gynrychioli de Cymru yn rownd derfynol genedlaethol y DU!

Roedd amser yn brin i baratoi ar gyfer rownd derfynol genedlaethol y DU. Er mai ein car ni oedd y cyflymaf yn ne Cymru, nid oedden ni'n hapus gyda'i berfformiad ar y dydd, ac roedden ni'n gwybod y gallai ein car fynd yn gynt. Ar ôl dadansoddi'r car, amlygwyd rhai problemau, ac aethom ati i gynnal profion a gweithio i'w wella.

Cynhaliwyd rownd derfynol y DU yn ffatri Jaguar ger Stratford. Roedd yn lleoliad gwych ac roedd timau o bob cwr o'r DU yn cystadlu. Aeth ein cyflwyniad llafar a'n sgyrsiau gyda'r beirniaid pit yn dda iawn. Roedd y beirniaid peirianneg yn wych, ac roedd llawer o gwestiynau ganddyn nhw am ein gwaith a sut gwnaethon ni wahanol rannau'r car.

Ein car ni oedd y 32ain o 36 car i rasio, ac roedd y nerfau wedi bod yn cynyddu drwy'r dydd. Roedden ni'n ansicr a fyddai ein car yn ddigon da, oherwydd y cyflawnwyd amseroedd cyflym dros ben drwy gydol y dydd – ceir ag amseroedd cynt nag unrhyw un o'n hamseroedd ni yn y gorffennol.

Er ei fod e'n nerfus iawn, roedd Rio, ein gyrrwr, wedi perfformio'n anhygoel, gan gyflawni'r amseroedd ymateb cyflymaf yn gyson unwaith eto. Ar ôl yr holl waith caled, roedd hi'n amser gweld a oedden ni wedi cyrraedd y nod – sef dylunio ac adeiladu'r car 2D F1 mewn Ysgolion cyflymaf a welodd y DU erioed. Wrth i ganlyniadau ein ras gyrraedd, roedden ni wrth ein boddau! Roedd ein car yn gyson gyflym, y cyflymaf ar y dydd, a'r cyflymaf a welwyd erioed! Roedden ni wedi llwyddo!

Ar ôl cwblhau holl heriau'r dydd, roedd angen i ni aros yn eiddgar am y canlyniadau. Roedd y cyflwynydd fel petai'n cymryd oriau maith i gyhoeddi'r canlyniadau. Y wobr gyntaf a gyhoeddwyd oedd y car cyflymaf, ac roedden ni'n dal i wenu ers canlyniadau'r ras, ac wrth ein boddau i dderbyn ein gwobr. Cyhoeddwyd y wobr am y car a beiriannwyd orau nesaf, ac enillon ni honno! Roedden ni'n falch o ennill y wobr hon, gan ein bod ni wedi gweithio'n galed iawn i ddylunio a chreu holl elfennau ein car. Roedden ni hefyd wrth ein boddau i dderbyn y wobr am y cyflwyniad llafar gorau.

Yna roedd hi'n amser am ganlyniadau'r tri uchaf, ac roedden ni ar bigau'r drain. Cyhoeddwyd yr ail a'r trydydd safle, ac yna cyhoeddwyd mai Endgame oedd y pencampwyr! Roedden ni wedi ennill! Roedd yr holl waith caled a'r ymdrech wedi bod yn werth chweil. Roedd sefyll ar y podiwm gyda'r tlysau a'r conffeti'n syrthio o'n cwmpas yn anhygoel – byddwn yn ei drysori am byth.

Er gwaethaf yr holl waith caled, roedd cymryd rhan yn y prosiect F1 mewn Ysgolion yn brofiad gwych, ac roedden ni wedi dysgu cymaint a datblygu cymaint o sgiliau – yn sicr, wnawn ni fyth ei anghofio. Hoffem ddiolch i'r cwmnïau a noddodd ac a'n helpodd ni i gystadlu, EESW am ei help a'n hathrawon am wneud y cyfan yn bosibl.

Tîm Endgame - Rio Northey (rheolwr y tîm), Alex Lawrence (peiriannydd dylunio), Sam Pike (peiriannydd gweithgynhyrchu) a Lia Sims (dylunydd graffeg) - Pencampwyr F1 mewn Ysgolion y DU 2018.

Dylunwyr cynnyrch chweched dosbarth yn cyrraedd y sêr ym Mhrifysgol Bangor

Alice Murray
Darparwr gweithgareddau EESW

Ym mis Mehefin, cynhaliodd EESW raglen Headstart Cymru yn yr adran dylunio cynnyrch ym Mhrifysgol Bangor. Cwrs preswyl ydoedd a roddodd gipolwg ar fywyd prifysgol i fyfyrwyr chweched dosbarth. Bu myfyrwyr Blwyddyn 12 o Ysgol David Hughes, Ysgol Friars, Ysgol Glan Clwyd, Ysgol Uwchradd Dinbych ac Ysgol Alun yn cymryd rhan yn her Autodesk Design Now, gyda chymorth yr hyfforddwr Autodesk, Mark Chester.

Yn ystod y cwrs tri diwrnod, derbyniodd y myfyrwyr hyfforddiant Autodesk Fusion 360 cyn profi eu sgiliau yn y gystadleuaeth Dylunio Teithio Gofod. Y dasg oedd dylunio llong ofod ar gyfer teithio rhwng y ddaear a'r gofod. Cafodd Mark ei blesio'n fawr gan waith y myfyrwyr, ac ymdrechion EESW i annog merched i ddilyn gyrfaoedd mewn peirianneg.

Dywedodd Mark: "Cawsom ni ymateb mor gadarnhaol i'r her. Gobeithio y bydd rhai ohonyn nhw'n enillwyr. Roedd hi'n braf gweld cynifer o fenywod ifanc yn awyddus i ddilyn gyrfa mewn dylunio a pheirianneg. Dylid cynnal mwy o ddigwyddiadau o'r fath."

Yn ogystal â dysgu sgiliau newydd, cafodd y myfyrwyr flas ar fywyd yn y brifysgol. Arhoson nhw yn neuaddau preswyl Prifysgol Bangor, yn ogystal â mwynhau cwis a gefnddio'r cyfleusterau chwaraeon gyda'r nos.

Dywedodd y myfyrwyr fod y profiad wedi'u gwneud nhw'n fwy hyderus ynglŷn â dewis y cwrs cywir ac addasu i fywyd yn y brifysgol.

Hoffai EESW ddiolch i Autodesk a'r adran dylunio cynnyrch ym Mhrifysgol Bangor am alluogi'r cwrs hwn ac am eu cymorth parhaus. Yn ogystal, hoffem ddiolch yn benodol i Mark Chester am gyflwyno'r cwrs a llysgenhadon myfyrwyr dylunio cynnyrch Prifysgol Bangor am sicrhau bod y cwrs yn llwyddiannus.


Myfyrwyr gyda Mark Chester yn y Ganolfan Dylunio Cynnyrch ym Mhrifysgol Bangor

Dyfodol Llwyddiannus – dull mwy hyblyg ac ymatebol o ddarparu addysg

Richard Lawson
Cyfarwyddwr dysgu – ffiseg, Ysgol Cardinal Newman



Mae ein pobl ifanc yn cael eu paratoi ar gyfer y dyfodol mewn ffordd newydd a chyffrous

Mae darpariaeth gwyddoniaeth a thechnoleg mewn ysgolion wedi profi trafferthion yn y blynyddoedd diweddar yn sgil datblygiadau anferth yn y maes. Nid yw'r system addysg yn gallu addasu mor gyflym â'r newidiadau ar ei ffurf bresennol, ac felly mae bwlch yn ymddangos.

Er mwyn bod yn ddinasyddion gweithredol ac amryddawn yng Nghymru a'r byd, mae angen dull mwy hyblyg ac ymatebol o ddarparu addysg. Felly dyma greu Dyfodol Llwyddiannus – canlyniad adolygiad eang gan yr Athro Graham Donaldson. Yn sgil argymhellion yr adroddiad, mae fframwaith addysg newydd yn cael ei greu.

Bydd athroniaeth newydd o sut y bydd dysgwyr yn ymgysylltu'n llawn â'u haddysg yn rhan ganolog o'r fframwaith sydd wrthi'n cael ei ddatblygu.

Bydd gyrfa ysgol plentyn yn cael ei rhannu'n chwe maes dysgu a phrofiad (MDPh), fel y celfyddydau mynegiannol, iechyd a lles a gwyddoniaeth a thechnoleg.

Bydd pob MDPh yn canolbwyntio ar bedwar pwrpas ar gyfer addysg sy'n ceisio gwneud yr holl bobl ifanc yng Nghymru yn: ddysgwyr uchelgeisiol, galluog; unigolion iach, hyderus; cyfranwyr mentrus, creadigol ac yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus.

Mae rhyngddibyniaethau'n cael eu hamlygu a byddant yn dileu'r ffiniau rhwng pob MDPh, gan alluogi dull mwy hyblyg o ddysgu, ac osgoi cyfyngu gwybodaeth i flychau.

O fewn pob MDPh, mae'r anghenion gorfodol ar gyfer gwybodaeth a sgiliau'n cael eu tynnu yn ôl i'r hanfodion y dylai pob person ifanc sy'n gadael yr ysgol eu gwybod neu feddu ar brofiad ohonynt.

I'r perwyl hwn, mae labeli traddodiadol yn cael eu dileu, ynghyd â'r goblygiadau sy'n cael eu cysylltu â bioleg, cemeg, ffiseg, dylunio a thechnoleg a chyfrifiadureg.

Bydd cynnwys newydd, symlach (wedi'i leihau o ran maint i'r hanfodion angenrheidiol, nid haws) yn cael ei gyflwyno dan benawdau newydd.

O 2022 ymlaen, efallai y bydd dysgwyr yng Nghymru'n astudio meddwl dylunio, meddwl gwyddonol, bywyd, sylwedd, grymoedd ac ynni a chyfrifiadura mewn ffordd fwy holistaidd, a phob un â'i gysylltiadau trawsgwricwlaidd, cynnwys a phrofiadau cysylltiedig.

Mae'r broses hon yn cael ei chymhwyso'n drylwyr gan arloeswyr cwricwlwm sydd â'r dasg o ddylunio fframwaith newydd gwyddoniaeth a thechnoleg, ac maen nhw wedi ymgysylltu â chyrff proffesiynol, ysgolheigion a chynrychiolwyr o'r diwydiant.

Dyluniwyd y fframwaith i ymgorffori llythrennedd, rhifedd, a chymhwysedd digidol, sy'n cael eu trin fel cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd gan athrawon ledled Cymru eisoes.

Mae'r amser i brofi a chadarnhau strwythur a chynnwys ein fframwaith newydd ar gyfer Cymru yn brysur agosáu. Mae disgwyl mawr am y trawsnewid radical posibl y gallai'r dull unigryw hwn o ddiwygio'r cwricwlwm ei gael ar y system addysg yng Nghymru. Mae llygaid y byd ar Gymru - yn enwedig ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg, wrth i'n pobl ifanc gael eu paratoi ar gyfer y dyfodol mewn ffordd newydd a chyffrous.

2018. THE YEAR OF ENGINEERING

Felly beth yw'r Flwyddyn Beirianneg?

Bob Cater
Prif Weithredwr EESW



Mae'n bryd trawsnewid syniadau pobl am beirianneg, gan ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o arloeswyr, dyfeiswyr a datryswyr problemau

Mae gan y DU dreftadaeth beirianneg falch. Rydym yn arwain y byd mewn sectorau fel awyrofod a moduro. Mae'r diwydiant yn parhau i ffynnu heddiw, gan ddarparu buddion economaidd anferth i'n gwlad.

Fodd bynnag, mae yna ddiffyg graddedigion peirianneg cymwys a thechnegwyr medrus. Yn fwy na hynny, mae yna ddiffyg amrywiaeth yn y gweithlu. Mae'r Flwyddyn Beirianneg yn gobeithio newid hynny. Mae Blwyddyn Beirianneg 2018 yn gyfle i ddathlu peirianneg yn y DU. Bydd y llywodraeth a diwydiant yn gweithio gydag ysgolion a theuluoedd i gynnig profiad cadarnhaol o'r diwydiant i bobl ifanc. Mae gyrfa mewn peirianneg yn rhoi cyfle i bobl ifanc lywio dyfodol y byd maen nhw'n byw ynddo.

Mae angen i ni newid canfyddiadau pobl am rôl peirianwyr heddiw, ac ysbrydoli cenhedlaeth newydd o beirianwyr gwych trwy amlygu'r amrediad o swyddi creadigol sydd ar gael.

Mae Llywodraeth EM eisiau gweithio gyda phartneriaid a sefydliadau sy'n cwmpasu hyd a lled y sector peirianneg yn ei gyfanrwydd, gan ddefnyddio eu harbenigedd i ysbrydoli a chymell pawb o blant ysgol gynradd i raddedigion, gyda pheirianneg yng nghanol y cyfan. Dyma'r amser gorau i ddechrau gyrfa fel peiriannydd.

Mae'r Flwyddyn Beirianneg yn ymgyrch gan y llywodraeth sy'n dathlu rhyfeddodau'r byd peirianneg. Mae hefyd yn rhan bwysig o'n strategaeth ddiwydiannol sy'n ymrwymo i roi hwb i beirianneg ledled y DU, i sicrhau bod gan bawb y sgiliau angenrheidiol er mwyn ffynnu mewn economi fodern.

O longau gofod i esgidiau sglefrio, swigod mewn bariau siocled i driniaethau canser sy'n achub bywydau, mae peirianneg yn cyffwrdd â phob rhan o'n bywydau. Fodd bynnag, nid yw digon o bobl ifanc – yn enwedig merched ifanc – yn credu mai dyma'r byd iddyn nhw. Yn sgil hyn, mae'r diwydiant yn cael trafferth recriwtio doniau'r dyfodol. Ar ben hynny, mae pobl ifanc yn colli'r cyfle i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w dyfodol nhw, dyfodol eu planed a phopeth sy'n byw ynddi.

Mae gyrfa mewn peirianneg yn gyffrous, yn werth chweil ac yn greadigol. Ond mae prinder mawr o bobl ifanc sy'n credu y gallai fod yn swydd iddyn nhw. Yn ystod 2018, rydym ni eisiau trawsnewid syniadau pobl am beirianneg, gan ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o arloeswyr, dyfeiswyr a datryswyr problemau, trwy ddangos iddyn nhw beth mae peirianwyr yn ei wneud mewn gwirionedd.

Peirianneg yw un o'r sectorau mwyaf cynhyrchiol yn economi'r DU, ac mae'n cyfrannu o leiaf 20% o werth ychwanegol gros y DU a hanner ein hallforion. Ac eto, ceir prinder sylweddol mewn gweithwyr peirianneg proffesiynol cymwys, a diffyg amrywiaeth yn y proffesiwn – mae 94% o'r gweithlu peirianneg yn wyn, a 91% yn wrywaidd.

Mae'r Flwyddyn Beirianneg yn gyfle i ni weithio gyda'n gilydd yn 2018 i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o beirianneg, gan ddefnyddio negeseuon cyson am apêl ac effaith peirianneg.

Yna, bydd Dyma Beirianneg yn parhau y tu hwnt i 2018, gan adeiladu ar y Flwyddyn Beirianneg gydag ymdrech barhaus i annog mwy o bobl ifanc i ddilyn gyrfa mewn peirianneg.